

**Ffioedd a thaliadau rheoleiddio ar
gyfer 2026/27**
**Crynodeb o'r ymgynghoriad ac
ymateb CNC**
Mawrth 2026

Cynnwys

1. Cyflwyniad	4
2. Ein cynigion ar gyfer taliadau	4
3. Cynnydd mewn taliadau ar gyfer 2026/27 – cynnydd chwyddiannol o 3%.....	5
3.1 Taliadau trwyddedu (ceisiadau).....	5
3.2 Taliadau parhau blynyddol (gweithgarwch cydymffurfio).....	5
4. Cynnydd mewn taliadau ar gyfer 2026/27 – cynnydd uwchlaw chwyddiant.....	6
4.1 Taliadau parhau blynyddol (gweithgareddau cydymffurfedd ariannu) lle mae diffyg	6
5. Sut y gwnaethom ymgynghori.....	6
6. Sut y gwnaethom ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad	7
7. Ymatebion i'r ymgynghoriad	7
7.1 Nifer yr ymatebion:	7
7.2 Sectorau a gynrychiolwyd:.....	7
7.3 Lleoliadau daearyddol yr ymatebwyr:	8
8. A oes gennych drwydded neu gydsyniad a roddwyd gan CNC ar hyn o bryd?.....	8
9. Dylid talu am wasanaethau rheoleiddio CNC gan y rhai sy'n eu defnyddio ac nid gan y trethdalwr neu dalwyr taliadau eraill. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno?.....	8
10. A ydych chi'n meddwl bod ffyrdd eraill a fyddai'n well o ran sut mae CNC yn bwriadu ariannu ei weithgareddau rheoleiddio?	9
11. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i gynyddu taliadau trwyddedu (ceisiadau) mewn rhai meysydd 3%, yn unol â chwyddiant a phwysau costau? 9	
12. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i gynyddu taliadau parhau blynyddol 3% mewn meysydd nad ydynt mewn diffyg, yn unol â chwyddiant a phwysau costau?	10
13. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i gynyddu taliadau parhau blynyddol mewn meysydd sydd mewn diffyg o fwy na chwyddiant ar gyfer 2026/27?	10
14. Ymateb i sylwadau a dderbyniwyd.....	11
14.1 Cefnogaeth neu dderbyniad ar gyfer cynnydd chwyddiannol	11
14.2 Ariannu gwasanaethau CNC	11
14.3 Cymorth y llywodraeth i weithgareddau sy'n darparu buddion cyhoeddus eang .	11
14.4 Dylai gwasanaethau rheoleiddio CNC barhau i gael eu hariannu'n bennaf gan daliadau, ond ni ddylai costau sy'n deillio o raglenni cenedlaethol, methiant hanesyddol i adennill costau llawn, neu safonau esblygol y tu hwnt i reolaeth	

gweithredwyr ddisgyn yn llwyr ar y rhai sy'n talu taliadau trwy gynnydd uwchlaw chwyddiant dro ar ôl tro	12
14.5 Ansawdd gwasanaeth wrth drwyddedu	12
14.6 Effeithlonrwydd ac adennill costau	13
14.7 Tryloywder mewn perthynas â chynnydd mewn costau	14
14.8 Rhagweladwyedd taliadau	15
14.9 Gwahaniaeth yn lefel y cynnydd rhwng taliadau am geisiadau gwastraff (trwyddedu) a thaliadau parhau.....	15
14.10 Cynnydd uwchlaw chwyddiant.....	15
14.11 Adennill diffygion	15
15. Ystyriaethau o ran y Gymraeg	17
15.1 A allai'r cynigion effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?	17
15.2 Oes ffordd y gallwn gynyddu defnydd o'r Gymraeg neu ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?	17
15.3 A oes unrhyw agweddau ar y cynigion a allai roi pobl dan anfantais wrth ddefnyddio'r Gymraeg?.....	17
15.4 A ydych chi'n credu bod y cynigion yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?	17
16. Y camau nesaf.....	18
Atodiad 1 – Cynigion yr ymgynghoriad ar daliadau.....	19
Atodiad 2 – Ymatebion ysgrifenedig llawn i'r ymgynghoriad	19
Atodiad 3 – Geirfa.....	45

1. Cyflwyniad

Fel corff a noddir gan Lywodraeth Cymru (LIC), rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'. Mae hyn yn golygu, lle bynnag y bo modd, ein bod yn adennill costau llawn y gwasanaethau rheoleiddio a ddarparwn gan y rhai sy'n eu defnyddio, yn hytrach na chael y gwasanaethau hynny wedi'u hariannu drwy drethi cyffredinol.

Fe wnaethom ddechrau rhaglen waith hirdymor er mwyn sicrhau bod trefniadau codi tâl ar draws CNC yn adlewyrchu costau a bod ein gwaith rheoleiddio yn cael ei ariannu'n gynaliadwy. Fe wnaethon ni weithredu'r adolygiad strategol diweddar o godi tâl am geisiadau ym mis Ebrill 2023 ac rydym wedi dechrau gweithio i adolygu taliadau parhau ar gyfer adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr.

2. Ein cynigion ar gyfer taliadau

Fe wnaethon ni ymgynghori ar gynigion i gynyddu faint o arian rydyn ni'n ei gasglu o'n cynlluniau codi tâl, yn dilyn adolygiad i sicrhau eu bod nhw'n adlewyrchu adferiad costau llawn ac yn cyflawni ein dull rheoleiddio a'r canlyniadau sydd eu hangen ar gyfer amgylchedd Cymru.

Wrth gynnig ffioedd a thaliadau newydd, rydym yn dilyn egwyddorion [Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru](#) yn ogystal â rheolau Trysorlys EF a'n rhwymedigaethau deddfwriaethol, gan sicrhau mai dim ond costau cymwys sy'n cael eu cynnwys o fewn taliadau. Mae'r dull hwn hefyd yn gyson â'r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu'. Ni fyddai fel arfer yn briodol ceisio cymorth grant ychwanegol ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio y dylai ffioedd dalu amdanynt, ac ni allwn roi cymhorthdal i weithgareddau o ffrydiau incwm eraill.

Rydym yn parhau i adolygu ein prosesau rheoleiddio, gan addasu ein polisi a'n hymagweddau at risg neu i'n dyletswyddau statudol, gan sicrhau eu bod mor effeithlon â phosibl. Mae angen i ni hefyd addasu ein gwasanaeth i ystyried tirwedd reoleiddiol neu ddeddfwriaethol sy'n esblygu, sy'n aml yn dod â chymhlethdod neu alw cynyddol a all effeithio ar lefelau gwasanaeth neu effeithlonrwydd. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein rheoleiddio mor syml â phosibl. Fodd bynnag, os cawn ein gyrru gan dystiolaeth neu ddyletswyddau statudol i wneud mwy, byddwn yn gwneud hynny.

Rydym wedi ystyried yr effaith ariannol y gallai ein cynigion codi tâl ei chael ar rai busnesau, yn enwedig gan fod ein cynigion yn cyd-daro â phwysau ariannol ehangach o chwyddiant a chostau byw cynyddol. Byddai methu â rheoli ein cynlluniau codi tâl i sicrhau eu bod yn adlewyrchu adennill costau llawn yn cyfyngu ar ein gallu i gyflawni ein dyletswydd reoleiddio gynyddol gymhleth, atal llygredd, a chyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae angen cyllid cynaliadwy arnom i gynnal ein cymwyseddau arbenigol, sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth a thrwyddedau, ac addasu rheoliadau.

3. Cynnydd mewn taliadau ar gyfer 2026/27 – cynnydd chwyddiannol o 3%

Am y cyfnod o 1 Ebrill 2026, rydym wedi cynnal ein taliadau rheoleiddio ar y lefelau presennol, cyn belled ag y bo modd. Fodd bynnag, mae angen addasiadau i reoli pwysau chwyddiannol a phwysau cost eraill ac i reoli diffygion mewn cyfundrefnau penodol.

Tybir y bydd twf cyflogau CNC, sy'n ffurfio'r gydran gost fwyaf i'w hadfer, yn +3% ar gyfer 2026/27. Mae rhagolwg diweddaraf y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Chwefror 2026 yn dangos cynnydd rhagolwg o 2.2% yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr a chynnydd rhagolwg o 3.1% yn y Mynegai Prisiau Manwerthu.

Felly rydym wedi cymhwyso cynnydd o +3% mewn nifer o feysydd trwyddedu a pharhau yn unol â chwyddiant a phwysau cost eraill. Mae angen i'n cyllid gyfateb i gost y ddarpariaeth, ac mae cynyddu ein taliadau yn unol â chwyddiant, lle bo angen, yn lleihau'r potensial i ddiffygion Gronni.

Bydd y meysydd canlynol yn destun cynnydd o +3% o 1 Ebrill 2026:

3.1 Taliadau trwyddedu (ceisiadau)

- Adnoddau dŵr (tynnu a chronni dŵr)
- Gosodiadau o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (gan gynnwys y Gyfarwyddeb Cyfarpar Hylosgi Canolig)
- Gwastraff sydd o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
- Ansawdd dŵr o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (gan gynnwys taliadau Deddf y Diwydiant Dŵr hefyd)
- Deunyddiau anniwclear o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
- Trwyddedu rhywogaethau
- Diogelwch cronfeydd dŵr

3.2 Taliadau parhau blynyddol (gweithgarwch cydymffurfio)

- Gosodiadau o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (gan gynnwys y Gyfarwyddeb Cyfarpar Hylosgi Canolig)
- Ansawdd dŵr o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
- Cludo gwastraff yn rhyngwladol o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
- Diogelwch cronfeydd dŵr
- Trwyddedau gweithgareddau perygl llifogydd

4. Cynnydd mewn taliadau ar gyfer 2026/27 – cynnydd uwchlaw chwyddiant

Rydym hefyd yn cymhwyso cynnydd uwchlaw chwyddiant (yn yr ystod +7% i +8.5%) mewn pum maes parhau sydd mewn diffyg er mwyn sicrhau symudiad tuag at adennill costau llawn. Mae'n debygol y bydd y diffygion hyn yn parhau nes bod adolygiadau parhau manwl wedi'u cwblhau. Nod y cynnydd hwn yw sicrhau bod lefelau gwasanaeth presennol yn cael eu cynnal, ond, mewn gwirionedd, mae angen cynnydd uwch i wneud elw dros y ddwy i dair blynedd nesaf.

4.1 Taliadau parhau blynyddol (gweithgareddau cydymffurfedd ariannu) lle mae diffyg

Pwyntiau allweddol o'r ymgynghoriad:

- O ganlyniad i beidio â chodi taliadau digonol yn hanesyddol a chwyddiant, nid yw taliadau wedi cadw i fyny â chostau.
- Mae adolygiad llawn o daliadau parhau ar y gweill a fydd yn symud CNC tuag at adennill costau.
- Mae adnoddau dŵr yn wynebu pwysau cost penodol (cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr adran 20).
- Bydd diffygion yn parhau mewn rhai meysydd nes bod adolygiadau wedi'u cwblhau.

Bydd cynnydd uwchlaw chwyddiant yn cael ei weithredu fel a ganlyn o 1 Ebrill 2026 er mwyn sicrhau bod lefelau gwasanaeth cyfredol yn cael eu cynnal ar gyfer y meysydd hynny sydd mewn diffyg:

- Taliadau uned safonol adnoddau dŵr – byddwn yn cynyddu'r tâl uned safonol 7% er mwyn rheoli'r diffyg yn y maes hwn.
- Bydd meysydd gwastraff, anniwclear, cyfleusterau ailgylchu deunyddiau, a chlodwyr, broceriaid a delwyr gwastraff – y mae pob un o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – i gyd yn cynyddu 8.5% er mwyn rheoli'r diffygion yn y meysydd hyn.

5. Sut y gwnaethom ymgynghori

Cyn ein hymgyngoriad ym mis Hydref 2025, cynhaliwyd cyfarfod grŵp ymgynghorol o dalwyr taliadau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'n cynigion a rhannu'r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig a'n methodoleg. Cafodd Llywodraeth Cymru ei diweddarau'n gyson trwy gydol y broses hon.

Pan lanswyd yr ymgynghoriad, cyhoeddwyd papurau briffio i'r cyfryngau a defnyddio postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, gan geisio mewnbwn gan randdeiliaid a'r cyhoedd yn ehangach. Anfonwyd negeseuon e-bost uniongyrchol at dros 300 o unigolion, busnesau a chyrff masnach. Dilynwyd hyn gyda negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol a negeseuon e-bost atgoffa uniongyrchol hanner ffordd drwy'r ymgynghoriad.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar-lein drwy Hwb Ymgynghori CNC, a oedd ar agor o 20 Hydref 2025 i 12 Ionawr 2026. Roedd yr opsiynau ymgynghori a'r opsiynau ymateb ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym hefyd wedi derbyn ymatebion drwy'r post a thrwy e-bost.

6. Sut y gwnaethom ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad

Defnyddiwyd ein dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein ddull dadansoddi meintiol (er enghraifft, graddfa Likert: '*Cytuno'n gryf*' i '*Anghytuno'n gryf*') a dull ansoddol, gan ddefnyddio dadansoddiad o'r themâu yn achos yr ymatebion testun rhydd. Mae hwn yn ddull a gydnabyddir yn eang o ddadansoddi data ansoddol a oedd yn ein galluogi i lunio mewnwelediadau a chysyniadau a oedd yn deillio o'r ymatebion.

Rydym wedi rhoi themâu i'r adborth a dderbyniwyd drwy'r ymgynghoriad ac wedi ymateb isod.

Mae testun llawn yr holl ymatebion i'w weld yn Atodiad 2.

7. Ymatebion i'r ymgynghoriad

7.1 Nifer yr ymatebion:

Derbyniwyd 13 o ymatebion drwy'r ymgynghoriad:

- derbyniwyd pump gan unigolion
- derbyniwyd pedwar gan gyrff masnach yn ymateb ar ran eu haelodau
- derbyniwyd tri gan fusnesau
- derbyniwyd un gan gorff aelodaeth broffesiynol

Cyfrannodd pump o ymatebwyr ymatebion ysgrifenedig naill ai yn lle neu yn ogystal â gwybodaeth a ddarparwyd trwy ein hwb ymgynghori.

Lle bo'n bosibl, rydym wedi grwpio pwyntiau a wnaed mewn ymateb i gwestiynau testun rhydd yr ymgynghoriad yn themâu sy'n codi dro ar ôl tro.

7.2 Sectorau a gynrychiolwyd:

Derbyniwyd ymatebion gan unigolion, sefydliadau a busnesau yn y sectorau canlynol:

- Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota (4)
- Adeiladu (1)
- Cyflenwyr trydan, nwy, ager a systemau aerdymheru (4)
- Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol (1)
- Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (1)
- Gweithgareddau cyflenwad dŵr, carthffosiaeth, rheoli gwastraff ac adfer (3)

Noder y gall ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb.


7.3 Lleoliadau daearyddol yr ymatebwyr:

- Ledled Cymru (7)
- Gogledd-ddwyrain (Sir Dinbych, Sir y Fflint neu Wrecsam) (1)
- Gogledd-orllewin (Ynys Môn, Conwy neu Wynedd) (3)
- De-orllewin (Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro neu Abertawe) (1)
- De-ddwyrain (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd neu Dorfaen) (2)
- Canolbarth Cymru (Ceredigion neu Bowys) (1)

Noder y gall ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb.


8. A oes gennych drwydded neu gydsyniad a roddwyd gan CNC ar hyn o bryd?

Ymatebion gan fusnesau ac unigolion:




9. Dylid talu am wasanaethau rheoleiddio CNC gan y rhai sy'n eu defnyddio ac nid gan y trethdalwr neu dalwyr taliadau eraill. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno?


Ymatebion gan unigolion:



Ymatebion gan gyrff masnach, sefydliadau a busnesau:



Heb wahaniaethu rhwng unigolion a sefydliadau/busnesau




10. A ydych chi'n meddwl bod ffyrdd eraill a fyddai'n well o ran sut mae CNC yn bwriadu ariannu ei weithgareddau rheoleiddio?

Ymatebion gan unigolion:



Ymatebion gan sefydliadau a busnesau:



11. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i gynyddu taliadau trwyddedu (ceisiadau) mewn rhai meysydd 3%, yn unol â chwyddiant a phwysau costau?

O'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn:

Unigolion



Cyrff masnach, busnesau a sefydliadau




Wedi cyfuno



12. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i gynyddu taliadau parhau blynyddol 3% mewn meysydd nad ydynt mewn diffyg, yn unol â chwyddiant a phwysau costau?

O'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn:


Unigolion



Cyrff masnach, busnesau a sefydliadau




Wedi cyfuno




13. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i gynyddu taliadau parhau blynyddol mewn meysydd sydd mewn diffyg o fwy na chwyddiant ar gyfer 2026/27?

O'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn:

Unigolion



Cyrff masnach, busnesau a sefydliadau



Wedi cyfuno

Cytuno'n gryf (1)	Cytuno (1)	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno (2)	Anghytuno (3)	Anghytuno'n gryf (2)
-------------------	------------	-------------------------------------	---------------	----------------------

14. Ymateb i sylwadau a dderbyniwyd

14.1 Cefnogaeth neu dderbyniad ar gyfer cynnydd chwyddiannol

Mae addasiadau sy'n gysylltiedig â chwyddiant yn angenrheidiol lle maent yn adlewyrchu cynnydd yng nghost darparu ein gwasanaethau. Mae amsugno pwysau chwyddiannol yn cynnal y gwasanaeth presennol ond nid yw o reidrwydd yn arwain at wasanaeth gwell.

Mae'r tâl a godir ar gyfer cais am drwydded bwrpasol yn adlewyrchu'n uniongyrchol y gwaith a wneir gan staff CNC ac yn cynnwys gorbenion a chostau cyflawni gweithredol CNC. Adolygwyd y rhain yn llawn yn y cyfnod cyn eu gweithredu ym mis Gorffennaf 2023.

14.2 Ariannu gwasanaethau CNC

Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai cost gwasanaethau rheoleiddio CNC gael ei thalu gan y rhai sy'n elwa'n uniongyrchol, yn hytrach na thrwy drethi cyffredinol (cymorth grant). Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* a rheolau Trysorlys EF.

Ni allwn roi cymhorthdal i gostau ein gweithgareddau ar un gyfundrefn reoleiddio gan ddefnyddio ffrydiau incwm anghysylltiedig, ac ni allwn wrthbwyso taliadau ar gyfer sector busnes penodol, hyd yn oed lle gall gweithgareddau rheoleiddiedig ddarparu buddion ehangach. Mewn achosion cyfyngedig ac eithriadol sy'n cynnwys gweithgareddau anfasnachol, mae CNC yn darparu hepgoriadau sy'n destun adolygiad rheolaidd.

Rydym yn gweithredu yn unol â'r Cod Rheoleiddwyr, gan gydweithio â'r rhai rydym yn eu rheoleiddio. Mae ein dull yn gymesur, yn seiliedig ar risg, ac wedi'i gynllunio i leihau beichiau ar fusnesau wrth gynnal tegwch a chysondeb ar draws pob sector.

14.3 Cymorth y llywodraeth i weithgareddau sy'n darparu buddion cyhoeddus eang

Mae llawer o'r gweithgareddau rydyn ni'n eu rheoleiddio yn darparu manteision amgylcheddol neu'n cyfrannu at ein lles cymdeithasol.

Er gwaethaf y manteision hyn, gall datblygu neu gyflawni'r gweithgareddau hyn hefyd arwain at risgiau y mae'n rhaid eu rheoli'n ofalus. Mae rheoleiddio yn sicrhau gwarchodaeth amgylcheddol, yn atal niwed, ac yn sail i reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy. Mae'n hanfodol ar gyfer galluogi adferiad natur a chefnogi addasu i newid hinsawdd.

Ein hegwyddor, sy'n deillio o '*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*' yw ariannu ein gwasanaethau gan y rhai sy'n eu derbyn neu'n elwa ohonynt yn uniongyrchol yn hytrach nag o drethi cyffredinol.

Mewn amgylchiadau penodol, anfasnachol, sy'n cyfrannu at gyflawni amcanion CNC, rydym yn ystyried a yw'n briodol hepgor taliadau wrth baratoi ein cynllun codi tâl. Er enghraifft, nid ydym yn codi tâl am drwyddedau rhywogaethau lle pwrpas y datblygiad yw darparu cyfleusterau a mynediad i bobl anabl (Hepgoriad E).

14.4 Dylai gwasanaethau rheoleiddio CNC barhau i gael eu hariannu'n bennaf gan daliadau, ond ni ddylai costau sy'n deillio o raglenni cenedlaethol, methiant hanesyddol i adennill costau llawn, neu safonau esblygol y tu hwnt i reolaeth gweithredwyr ddisgyn yn llwyr ar y rhai sy'n talu taliadau trwy gynnydd uwchlaw chwyddiant dro ar ôl tro

Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod ein gwasanaethau rheoleiddio yn cael eu hariannu mewn ffordd sy'n deg, yn dryloyw, ac yn gyson â'r egwyddorion a nodir yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

Ar gyfer cyfundrefnau penodol, lle bydd diffygion yn parhau nes bod adolygiad manwl o daliadau parhau wedi'i gwblhau, rydym yn gweithredu cynnydd uwchlaw chwyddiant i symud tuag at adennill costau llawn. Bwriad y cynnydd hwn yw cynnal lefelau gwasanaeth, er y byddai angen cynnydd uwch i ddatrys diffygion yn llawn, a hynny o fewn dwy i dair blynedd yn ddelfrydol.

Rydym wedi cychwyn rhaglen waith gynhwysfawr i adolygu a rheoli cyllid, gan ganolbwyntio i ddechrau ar daliadau parhau adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr. O fewn hyn, byddwn yn adolygu ffyrdd presennol o weithio a dulliau codi tâl cyfredol i sicrhau ein bod yn gweithio mewn modd effeithlon sy'n seiliedig ar risg ac yn adennill costau trwy gynllun codi tâl cymesur. Nes i ni gwblhau'r adolygiadau hyn, bydd angen i ni barhau i reoli unrhyw ddiffygion yn y cyfamser.

Ein nod yw cynnal fframwaith ariannu sefydlog a gwydn wrth sicrhau aliniad ag egwyddorion *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

14.5 Ansawdd gwasanaeth wrth drwyddedu

Fe wnaethon ni gyflwyno newidiadau i'n taliadau ar gyfer ceisiadau am drwyddedau ym mis Gorffennaf 2023 a oedd yn ein symud yn agosach at adennill costau llawn ac a ymdriniodd â methiant hanesyddol i adennill costau llawn o fewn y gwasanaeth trwyddedu.

Ers 2023, mae CNC wedi wynebu pwysau chwyddiant ar draws meysydd costau craidd, gan gynnwys dyfarniadau cyflog a drafodwyd yn genedlaethol, systemau digidol a thrwyddedu, a chymorth technegol arbenigol, y mae angen adennill costau ar eu cyfer.

Yn 2025, gweithredodd CNC yr 'achos dros newid', gan symleiddio ein gweithgareddau ac ailganolbwyntio ein hadnoddau ar ddarparu gwasanaethau hanfodol na all neb ond ni eu darparu. Roedd hyn yn cynnwys dileu neu ailstrwythuro nifer o swyddi. Bydd y newidiadau hyn yn helpu i sicrhau bod y sefydliad mewn gwell sefyllfa i gyflawni amcanion ei gynllun corfforaethol i gefnogi adferiad natur, mynd i'r afael â newid hinsawdd, a lleihau llygredd.

Roedd yr aflonyddwch dilynol dros dro ac ar draws y sefydliad ac yn adlewyrchu pwysau ariannol ehangach. Mae anghenion adnoddau'r gwasanaeth trwyddedu bellach wedi gwella gyda gwelliant cyfatebol i lefelau'r gwasanaeth trwyddedu. Mae sicrhau bod gennym adnoddau a'n bod yn wydn ar gyfer y dyfodol yn allweddol i adolygu ein gwasanaeth a'r cyllid cysylltiedig.

Rydym yn parhau i adolygu ein gweithdrefnau gweithredu ac i chwilio am welliannau effeithlonrwydd. Er enghraifft, yn 2025 fe wnaethom leihau'n sylweddol faint o waith yr oeddem wedi bod yn ei wneud ar ildio trwyddedau ar gyfer gwaredu dip defaid gwastraff, gan ein galluogi i ddileu'r tâl. Roedd hyn yn rhan o newidiadau ehangach a gyflwynwyd er mwyn annog pobl i beidio â gwaredu dip defaid gwastraff ar dir, sydd ag effaith niweidiol ar yr amgylchedd.

Rydym yn ymgymryd â rhaglenni gwaith mewnol ac allanol er mwyn gwella prosesau a mynediad cwsmeriaid at ein gwasanaethau a fydd yn helpu i gyflawni arbedion effeithlonrwydd wrth drawsnewid CNC erbyn 2030.

Rydym yn ceisio gwella ein gwasanaeth yn barhaus a, lle bo modd, gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn datblygu atebion ymarferol sy'n mynd i'r afael ag effeithlonrwydd penodol.

14.6 Effeithlonrwydd ac adennill costau

Ers ffurfio CNC yn 2013, nid yw taliadau mewn sawl maes rheoleiddio wedi cadw i fyny â chost wirioneddol darparu gwasanaethau. Mae hyn wedi arwain at fethiant i adennill costau llawn, lle nad yw incwm wedi bod yn ddigonol i dalu am gost wirioneddol rheoleiddio. Mae CNC wedi amsugno hyn cyn belled ag y bo modd, ond nid yw'r dull hwn yn gynaliadwy ac mae risg y bydd yn rhoi baich cynyddol ar weithgareddau CNC a ariennir gan grantiau, nad yw'n deg nac yn cydymffurfio â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Cynhaliwyd ein Hadolygiad Strategol o Daliadau rhwng 2019 a 2023 ac fe adolygodd daliadau trwyddedu (ceisiadau) yn unig. Nid ydym wedi adolygu'r rhan fwyaf o'n taliadau parhau (cydymffurfedd blynyddol) yn llawn eto, er bod y gwaith hwn wedi dechrau bellach. Mae adolygu ein prosesau i nodi cyfleoedd ar gyfer enillion effeithlonrwydd yn rhan sylfaenol o'r broses hon. Nid yw effeithlonrwydd yn ymwneud â lleihau costau yn unig; mae'n ymwneud ag optimeiddio prosesau a sicrhau darpariaeth gynaliadwy yn erbyn cefndir o gymhlethdod cynyddol.

Roedd ein hadolygiad o daliadau trwyddedu yn gam pwysig wrth foderneiddio ein cyfundrefnau codi tâl. Bydd y rhaglen waith i adolygu taliadau parhau (cydymffurfedd blynyddol) yn edrych ar brosesau cyfredol, ac yn ystyried gwelliannau i brosesau, effeithlonrwydd, a'r lefelau gwasanaeth yr ydym am eu cyflawni.

Mae Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i gyrff cyhoeddus ddangos bod taliadau'n seiliedig ar gostau effeithlon, nid dim ond gwariant gwirioneddol. Mae CNC wedi ymrwymo i adolygu prosesau mewnol, nodi cyfleoedd i symleiddio, a sicrhau nad yw taliadau'n ariannu prosesau aneffeithlon. Wedi dweud hynny, nid ydym bob amser yn gallu cynyddu effeithlonrwydd a fyddai'n dibynnu ar fuddsoddiad cyfalaf mewn seilwaith presennol.

Rydym yn ymgymryd â gwaith trawsnewid mewnol a rhaglenni effeithlonrwydd, gan gynnwys adolygiad o adeiladau ein swyddfeydd, digideiddio prosesau trwyddedu, rheoleiddio gwell yn seiliedig ar risg, a chynllunio'r gweithlu.

Bwriad y diwygiadau hyn yw lleihau costau hirdymor a gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau. Mae CNC yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddangos bod ei gynigion codi tâl yn adlewyrchu strwythurau cost effeithlon, nid chwyddedig.

Bydd CNC yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol y broses a bydd yn sicrhau bod unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud yn raddol, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cael eu cefnogi gan gyfiawnhad clir. Bydd adborth rhanddeiliaid yn cael ei ystyried yn ofalus cyn gwneud penderfyniadau terfynol.

14.7 Tryloywder mewn perthynas â chynnydd mewn costau

Ers ffurfio CNC yn 2013, nid yw taliadau mewn sawl maes rheoleiddio wedi cadw i fyny â chost wirioneddol darparu gwasanaethau. Mae hyn wedi arwain at fethiant i adennill costau llawn, lle nad yw incwm wedi bod yn ddigonol i dalu am gost wirioneddol rheoleiddio.

Mae CNC wedi amsugno hyn cyn belled ag y bo modd, ond nid yw'r dull hwn yn gynaliadwy ac mae risg y bydd yn rhoi baich cynyddol ar weithgareddau CNC a ariennir gan grantiau, nad yw'n deg nac yn cydymffurfio â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Mae CNC, fel llawer o fusnesau ledled Cymru, wedi wynebu pwysau chwyddiant a phwysau cost eraill yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r pwysau hyn wedi cynyddu cost darparu gwasanaethau rheoleiddio statudol yn sylweddol.

Mae'r cynigion presennol yn ymateb i'r angen i fynd i'r afael (yn rhannol) â methiant hanesyddol i adennill costau llawn yn ogystal â phwysau chwyddiant parhaus. Mae'r symudiad tuag at adennill costau llawn yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â diffygion hirhoedlog sydd wedi effeithio ar ddarpariaeth ar lefel y gwasanaeth.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd rhagweladwyedd a chynllunio hirdymor. Rydym yn ceisio rheoli ein cynlluniau taliadau i ddarparu gwelededd ar gyfer cynllunio ariannol hirdymor a chyflawni gwelliannau amgylcheddol. Mae ein cynnydd yn unol â chwyddiant yn seiliedig ar ragolygon sydd ar gael yn gyhoeddus.

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar drywyddau codi tâl yn y dyfodol a newidiadau graddol lle bo'n briodol, er budd tryloywder. Rydym yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid drwy ein grŵp ymgynghorol o dalwyr taliadau a negeseuon e-bost yn eu diweddarau ar yr hyn yr ydym yn debygol o'i gynnig ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol, yn ogystal â'n bwriad tymor hwy o ran cyllid cynaliadwy.

Rydym yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth fanwl am y ffactorau penodol sy'n cyfrannu at gynnydd mewn taliadau a lefelau gwasanaeth. Mae ein hymgynghoriadau ar daliadau yn amlinellu'r prif ffactorau, megis chwyddiant, moderneiddio digidol, a'r angen i fynd i'r afael â methiant hanesyddol i adennill costau llawn.

Bydd ein hadolygiadau manwl o daliadau parhau, gan ddechrau gydag adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr, yn anelu at roi taliadau rheoleiddio ar sail fwy cynaliadwy dros y tymor canolig i'r tymor hir. Byddwn yn parhau i asesu ein blaenoriaethau a'n ffyrdd o weithio wrth i ni ddatblygu'r gwaith hwn.

14.8 Rhagweladwyedd taliadau

Nod ein hadolygiad parhaus o'n taliadau parhau yw darparu fframwaith sefydlog, aml-flwyddyn ar gyfer taliadau parhau yn y dyfodol.

Ni allwn ymrwymo i bwynt terfyn sefydlog ar gyfer addasiadau i daliadau gan fod Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ni adolygu taliadau yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu cost lawn darparu ein gwasanaethau. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio gorchuddion hirdymor i lywio ein taliadau ac i lyfnhau ein taliadau dros amser er mwyn atal cynnydd neu ostyngiadau sylweddol o un flwyddyn i'r llall.

Rydym yn cytuno bod egwyddorion tegwch, tryloywder, cymesuredd a sefydlogrwydd hirdymor yn bwysig mewn system reoleiddio gredadwy y gellir dibynnu arni. Maent hefyd yn gyson â'r disgwyliadau a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Bydd CNC yn parhau i fireinio ei ddull gweithredu drwy ein hadolygiadau taliadau a thrwy ymgysylltu'n barhaus â sectorau a reoleiddir.

14.9 Gwahaniaeth yn lefel y cynnydd rhwng taliadau am geisiadau gwastraff (trwyddedu) a thaliadau parhau

Adolygwyd taliadau trwyddedu (ceisiadau) ar gyfer gwastraff yn helaeth fel rhan o'n rhaglen Adolygiad Strategol o Daliadau a weithredwyd yn 2023. Mae rhaglen hirdymor i adolygu taliadau parhau ar y gweill a, hyd nes y bydd wedi'i chwblhau, mae angen inni ystyried cynnydd uwchlaw chwyddiant er mwyn rheoli methiant hanesyddol i adennill costau llawn.

14.10 Cynnydd uwchlaw chwyddiant

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein taliadau'n deg, yn gymesur, yn adennill ein costau, yn effeithlon, ac yn cydymffurfio â *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

Mae'r achosion hyn o gynnydd uwchlaw chwyddiant yn angenrheidiol gan nad yw llawer o gyfundrefnau codi tâl CNC wedi'u hadolygu'n gynhwysfawr ac nid ydym yn adennill costau am y gweithgareddau a gyflawnwn. O ganlyniad, mae gennym sawl cyfundrefn mewn diffyg y mae angen i ni eu rheoli.

Addasiad tymor byr i reoli cyllid yw ein cynigion hyd nes y cynhelir adolygiadau mwy sylweddol gyda'r nod o sefydlu cyllid cynaliadwy ar gyfer y tymor hir. Rydym wedi dechrau adolygiad o adnoddau dŵr, gan gynnwys costau sy'n gysylltiedig ag adran 20 o'r Ddeddf Adnoddau Dŵr a thaliadau parhau ym maes ansawdd dŵr.

Rydym yn cydnabod y pryder y gallai cynnydd parhaus uwchlaw chwyddiant ei achosi i weithredwyr ac rydym yn cyflwyno cynnydd fesul cam dros sawl blwyddyn yn hytrach na chymhwyso cynnydd er mwyn adfer costau llawn mewn un cam. Mae'r camau gweithredu hyn yn cyd-fynd â *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus gydbwysu adennill costau â chymesuredd a thegwch.

14.11 Adennill diffygion

Mae Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i CNC adennill cost lawn y gwasanaethau rheoleiddio a ddarparwn lle bynnag y bo'n briodol, yn ymarferol ac yn deg

gwneud hynny. Ar yr un pryd, mae'n pwysleisio cymesuredd, gwerth am arian, a'r angen i osgoi gosod beichiau afresymol ar y rhai sy'n talu taliadau. Mae ein dull ni'n ceisio cydbwyso'r rhwymedigaethau hyn.

Rydym wedi ymrwymo o'r blaen i barhau i gymryd camau i wella adennill costau mewn cyfundrefnau sydd mewn diffyg. Rydym yn adolygu hyd a graddfa'r codiadau yn flynyddol. Rydym yn cynllunio cyfnodau ad-dalu diffygion ar gyfer cyfundrefnau dros sawl blwyddyn er mwyn ystyried y cydbwysedd rhwng fforddiadwyedd y cynnydd arfaethedig mewn taliadau a'r amser y bydd yn ei gymryd i adennill costau. Rydym yn deall bod tryloywder a rhagweladwyedd yn hanfodol ar gyfer cynllunio ariannol gweithredwyr ac wedi cyfyngu ein cynnydd arfaethedig i lai nag 8.5%.

Wrth i ni gwblhau adolygiadau manwl o daliadau parhau ar draws adnoddau dŵr, ansawdd dŵr, rheoleiddio diwydiant a gwastraff yn y blynyddoedd i ddod, byddwn mewn sefyllfa gryfach i gyhoeddi golwg gliriach, aml-flwyddyn o'r trywyddau disgwylidig ar gyfer taliadau.

Ein nod yw cwblhau adolygiadau o daliadau parhau ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Hydref 2027.

Rydym yn cydnabod y pryder ynghylch y cynnydd arfaethedig o 7% yn y tâl uned safonol ar gyfer adnoddau dŵr ar gyfer 2026/27. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu'n bennaf y pwysau cost parhaus a yrrir yn bennaf gan gytundebau gweithredu cronfeydd dŵr o dan adran 20 sy'n gysylltiedig â Rhaglen Diogelwch Argaeau Dŵr Cymru. Nid ymddygiad gweithredwyr sy'n gyfrifol am y pwysau hyn, ac mae CNC wedi ymrwymo i sicrhau bod codiadau yn parhau i fod yn gymesur ac wedi'u cyfyngu gan amser.

Rydym yn deall y pryder y gall diffygion sy'n deillio o fethiant hanesyddol i adennill costau llawn ymddangos fel pe baent yn cael eu hadennill yn ôl-weithredol gan weithredwyr presennol. Nid yw CNC yn ceisio adennill costau hanesyddol yn unig; yn hytrach, rydym yn mynd i'r afael â diffygion sy'n parhau heddiw ac a fyddai fel arall yn parhau i dyfu. Mae'n ofynnol i ni sicrhau bod pob cyfundrefn codi tâl yn gynaliadwy yn ariannol, nad yw diffygion yn cael eu cymorthdalu gan dalwyr taliadau eraill na chan drethi cyffredinol, a bod ein taliadau'n adlewyrchu gwir gost rheoleiddio.

Mae CNC wedi gweithredu codiadau graddol er mwyn osgoi siociau sydyn, wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch y potensial ar gyfer cyllid canolog lle mae gan weithgareddau fandad cenedlaethol, ac wedi dechrau adolygiad llawn o daliadau parhau.

Rydym yn cydnabod y pryder, os na fydd ein cynnydd blynyddol yn adennill ein costau'n llawn (gan gynnwys adennill diffygion), y bydd ein diffyg yn parhau i gynyddu. Ein nod yw sefydlogi taliadau unwaith y bydd cyfundrefnau'n adennill costau llawn.

15. Ystyriaethau o ran y Gymraeg

15.1 A allai'r cynigion effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

Dywedoch chi:

- Y cynigion yw cynyddu ffioedd 3%. Pa fath o gwestiwn twp yw gofyn a yw hyn yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?
- Nid ydym yn ystyried y bydd y cynigion yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.
- Na.
- Na.

15.2 Oes ffordd y gallwn gynyddu defnydd o'r Gymraeg neu ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

Dywedoch chi:

- Gallai CNC barhau i sicrhau bod yr holl ganllawiau rheoleiddio, deunydd ymgynghori a gwybodaeth i gwsmeriaid yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog ar yr un pryd, gan gefnogi mynediad cyfartal i ymgeiswyr a rhanddeiliaid sy'n siarad Cymraeg.
- Mae'n ddewis personol.
- Na.

15.3 A oes unrhyw agweddau ar y cynigion a allai roi pobl dan anfantais wrth ddefnyddio'r Gymraeg?

Dywedoch chi:

- Nid ydym yn gweld unrhyw feysydd o fewn y cynigion a fyddai'n rhoi siaradwyr Cymraeg dan anfantais.

15.4 A ydych chi'n credu bod y cynigion yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Dywedoch chi:

- Nid yw'n ymddangos bod y cynigion yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol.
- Na.

16. Y camau nesaf

Ar ôl ystyried yr adborth a dderbyniwyd, rydym wedi penderfynu symud ymlaen â'r taliadau arfaethedig.

Rydym yn bwriadu gweithredu'r taliadau wedi'u diweddarau ar 1 Ebrill 2026.

Atodiad 1 – Cynigion yr ymgynghoriad ar daliadau

Gellir dod o hyd i'r cynigion manwl fel y'u hamlinellwyd yn yr ymgynghoriad drwy ddilyn y dolenni canlynol.

<https://ymgyngori.cyfoethnaturiol.cymru/sroc/nrw-charge-consultation-2026-27>

<https://ymgyngori.cyfoethnaturiol.cymru/sroc/ymgyngoriad-tal-cnc-2026-27>

Atodiad 2 – Ymatebion ysgrifenedig llawn i'r ymgynghoriad

A ydych chi'n meddwl bod ffyrdd eraill a fyddai'n well o ran sut mae CNC yn bwriadu ariannu ei weithgareddau rheoleiddio?

Grant Llywodraeth Cymru.

Dylai rhai gwasanaethau rheoleiddio sy'n galluogi gweithgareddau sydd o fudd ehangach i gymdeithas, a'r gymuned, gael eu hariannu i raddau helaethach gan grant gan y llywodraeth. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys cynhyrchu trydan drwy ynni dŵr, sy'n cyfrannu at y wlad yn symud tuag at ei tharged o leihau cynhyrchiant CO2. Mae gan Gymru botensial rhagorol i gynhyrchu mwy o ynni lleol, carbon niwtral gan ddefnyddio ynni dŵr, ond mae'r lefel bresennol o ffioedd a chostau yn gwneud y mwyafrif helaeth o gynlluniau posibl yn anhyfyw o'r cychwyn cyntaf.

Dylai gwasanaethau rheoleiddio CNC barhau i gael eu hariannu'n bennaf drwy daliadau ar y rhai sy'n eu defnyddio ac yn elwa ohonynt. Fodd bynnag, lle mae costau sylweddol yn codi o raglenni sydd wedi'u mandadu'n genedlaethol, methiant hanesyddol i adennill costau llawn, neu safonau rheoleiddio sy'n esblygu nad ydynt yn cael eu gyrru gan ymddygiad gweithredwyr na risg benodol i'r safle, ni ddylid adennill y rhain drwy gynnydd dro ar ôl tro mewn taliadau uwchlaw chwyddiant yn unig.

Mewn achosion o'r fath, dylai CNC ystyried cyfuniad o adennill diffygion o fewn terfyn amser a fesul cam, mwy o ddefnydd o gyllid canolog ar gyfer rhaglenni diogelwch sy'n cael eu gyrru'n genedlaethol, a strwythurau codi tâl sy'n fwy cymesur ac sy'n seiliedig ar risg. Byddai hyn yn caniatáu i CNC barhau i gael ei ariannu'n gynaliadwy wrth osgoi effeithiau anghymesur ar weithredwyr cydymffurfiol, risg isel a chynnal hyder mewn buddsoddi tymor hir.

Gwell rheolaeth

Rydym am bwysleisio, waeth beth fo'r dulliau codi tâl, fod gan CNC ddyletswydd i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mor gyfrifol ac effeithlon â phosibl er mwyn lleihau costau a gwasanaethau.

Cododd un pwyllgor gweithredol sirol Undeb Amaethwyr Cymru enghraifft o ardal draenio mewnol yng Ngogledd Cymru lle roedd offer wedi bod yn segur am fisoedd lawer, ac nid oedd hyn yn dangos defnydd effeithiol o arian nac adnoddau. Lle na ellir osgoi cynnydd mewn costau, dylai CNC sicrhau tryloywder a chyfiawnhad llawn dros y newidiadau hyn.

Mynegodd ein haelodau rywfaint o anghytundeb. Gyda rheoleiddio cynyddol, mae yna ymdeimlad o rwystredigaeth y gallai'r dull hwn osod costau cynyddol ar fusnesau yn y tymor hir.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i gynyddu costau trwyddedu (ceisiadau) mewn rhai meysydd 3%, yn unol â chwyddiant a phwysau costau?

Dim ond GBP 148 y mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr yn ei godi am adnewyddu trwydded gyda'r un telerau am amser cyfyngedig.

Mae CNC eisoes yn codi GBP 1,440 – a gyda chynnydd o 3%, bydd yn dod yn GBP 1,483.

Pam mae'r tâl yng Nghymru DDEG GWAITH yn uwch nag ydyw yn Lloegr?

Ar ben hynny, ni all adnewyddu trwydded gyda'r un telerau am amser cyfyngedig gyfiawnhau ffi o GBP 1,440 – ond dyna mae CNC yn ei godi.

Gan ganiatáu cyfradd o GBP 100 yr awr am yr amser a dreulir ar adnewyddiad o'r fath, byddai'n golygu y byddai adnewyddu trwydded o'r fath, sy'n ddigon syml, yn cymryd 14 awr.

Mae CNC yn twyllo'r rhai ohonom sy'n gorfod defnyddio eu gwasanaethau rheoleiddio, drwy honni bod eu ffioedd yn cael eu cyfiawnhau gan eu hangen i 'adennill costau'.

I'w roi'n hollol blaen, mae'n 'lladrad golau dydd'.

Dylai'r cynnydd fod yn uwch.

Nid yw cyfrannedd yn air y mae CNC yn ei ddeall.

Rwy'n cytuno â'r cynnydd yn y ffi ar gyfer trwyddedau rheolau safonol, ond mae ffioedd ceisiadau am drwyddedau pwrpasol eisoes yn rhy uchel.

<p>Er ei fod yn gynnydd bach, nid ydym yn cytuno y dylai ffioedd adnoddau dŵr gynyddu o gwbl oherwydd eu bod eisoes ar lefel sy'n lladd bron pob cyfle posibl i gynhyrchu pŵer trydan dŵr.</p>
<p>Er bod yr aelodau wedi cydnabod ac yn derbyn y cynnydd arfaethedig ar y cyfan, gan gydnabod y pwysau chwyddiant a chostau y mae CNC yn eu hwynebu, maent am bwysleisio'r straen ariannol sylweddol a chynyddol ar y sector amaethyddol, wedi'i waethygu gan bwysau gan Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill.</p>
<p>Yn ddiweddar, mae gweithredwyr wedi profi cynnydd sylweddol mewn ffioedd a gynlluniwyd i wella staffio a recriwtio. Yn syth ar ôl i'r ffioedd gael eu cynyddu, cyhoeddodd CNC ei fod yn rhewi recriwtio, felly mae'n anodd gweld sut y gwnaeth ffioedd y gweithredwr wella gwasanaethau o fewn y tîm trwyddedu'n uniongyrchol.</p> <p>Ers hynny, mae gweithredwyr wedi profi oedi hir iawn ac, o ganlyniad, safon gwasanaeth is – adroddir (yn ddiweddar) bod oedi gyda thrwyddedau gwastraff tua 6-9 mis, er enghraifft.</p> <p>Mae gweithredwyr yn aml yn datgan y byddent yn hapus i dalu mwy yn gyfnewid am safon gwasanaeth well. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi bod yn wir. Am y rheswm hwn, ni all CIWM Cymru gefnogi cynnydd pellach mewn ffioedd.</p>
<p>Rydym yn cydnabod yr angen am gynnydd sy'n gysylltiedig â chwyddiant lle mae hyn yn adlewyrchu cynnydd gwirioneddol yng nghost darparu gwasanaethau trwyddedu. Ar gyfer meysydd sy'n ganolog i'n swyddogaethau statudol, mae'n parhau i fod yn hanfodol bod CNC yn darparu cyfiawnhad cliriach dros unrhyw gynnydd arfaethedig. Mae amserlen gyhoeddedig CNC ar gyfer adolygiadau taliadau yn y dyfodol, sy'n ymestyn hyd at 2031, yn dangos newid pellach i fframweithiau trwyddedu dros y tymor canolog. O ystyried y gorwelion cynllunio sy'n gysylltiedig â chylchoedd buddsoddi cynllunio rheoli asedau, byddem yn ei chael hi'n hynod ddefnyddiol pe bai CNC yn cyhoeddi golwg aml-flwyddyn o gostau trwyddedu disgwylidig sydd wedi'i halinio â'r amserlen hon. Byddem hefyd yn croesawu esboniad cliriach o'r ffactorau cost penodol y tu ôl i'r cynnydd. Yn olaf, byddai'n fuddiol pe gallai CNC ddangos sut y bydd incwm trwyddedu ychwanegol yn cefnogi gwelliannau mesuradwy o ran amseroldeb penderfyniadau, cysondeb ac eglurder rheoleiddiol, fel y gallwn ddeall yn well sut mae taliadau uwch yn arwain at well darpariaeth mewn gwasanaethau.</p>
<p>Er bod yr aelodau wedi cydnabod ac yn derbyn y cynnydd arfaethedig ar y cyfan, gan gydnabod y pwysau chwyddiant a chostau y mae CNC yn eu hwynebu, maent am bwysleisio'r straen ariannol sylweddol a chynyddol ar y sector amaethyddol, wedi'i waethygu gan bwysau gan Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill.</p>

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i gynyddu taliadau parhau blynyddol 3% mewn meysydd nad ydynt mewn diffyg, yn unol â chwyddiant a phwysau costau?

Dylai'r cynnydd fod yn uwch.

Mae'r ffioedd y mae CNC yn eu codi yn seiliedig ar adennill costau llawn, ond mae'r 'gost' yn cael ei chwyddo gan CNC, sy'n gwneud materion gweinyddol syml yn faterion gweinyddol cymhleth.

Cymerwch, er enghraifft, adnewyddu trwydded tynnu dŵr o dan yr un telerau.

Ar ôl sicrhau ei hun bod deiliad y drwydded yn cydymffurfio â thelerau'r drwydded, dylai CNC allu ailgyhoeddi'r drwydded gyda'r lleiafswm o ffwdan.

Ond na – mae cymaint o haenau o weinyddiaeth y mae'n rhaid i'r adnewyddiad fynd drwyddynt, gydag oedi gormodol ym mhob cam, fel bod CNC yn teimlo'n gyfiawn wrth anfon bil at y cleient am yr hyn sy'n ffordd gwbl aneffeithlon o wneud pethau.

Dywedir y bydd trwyddedau'n cael eu prosesu o fewn tri mis; rydw i wedi bod yn aros ers 27 Gorffennaf 2025 ac nid wyf wedi derbyn adnewyddiad syml, gyda'r un telerau, o hyd.

Mae honni ei bod hi'n angenrheidiol cynyddu ffioedd 3% am wasanaeth mor wael yn anghredadwy.

Mae Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain yn cydnabod bod pwysau chwyddiant yn effeithio ar CNC yn gyffredin â sefydliadau eraill, ac y gallai cynnydd cymedrol, sy'n gysylltiedig â chwyddiant, mewn taliadau parhau fod yn angenrheidiol i gynnal lefelau gwasanaeth lle nad yw cyfundrefnau mewn diffyg.

Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn bwysig bod taliadau parhau yn parhau i adlewyrchu cymesuredd, risg ac ymdrech reoleiddio. I weithredwyr ynni dŵr, mae taliadau parhau yn cynrychioli cost gylchol ac anochel, ac mae hyd yn oed cynnydd sy'n gysylltiedig â chwyddiant yn cyfrannu at bwysau cronus cynyddol pan gânt eu cyfuno â chynnydd uwchlaw chwyddiant mewn meysydd eraill.

Felly mae Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain yn pwysleisio pwysigrwydd sefydlogrwydd taliadau, tryloywder, a gwahaniaethu clir rhwng cynnydd chwyddiantol ac adennill diffygion, er mwyn cefnogi cynllunio hirdymor a chydymffurfedd parhaus.

Mae CIWM Cymru yn cefnogi cynnydd mewn taliadau parhau. Fodd bynnag, fel uchod, rhaid i gynnydd mewn ffioedd arwain at safon gwasanaeth well.

Yn gyffredinol, rydym yn derbyn y cynnydd chwyddiannol arfaethedig o 3% ar gyfer taliadau parhau blynyddol mewn cyfundrefnau sydd heb fod mewn diffyg, ar yr amod bod yr addasiadau hyn yn adlewyrchu pwysau cost gwirioneddol. Fodd bynnag, mae codiadau blynyddol dro ar ôl tro yn creu heriau ar gyfer cynllunio ariannol a chyflawni gwelliannau amgylcheddol. I fynd i'r afael â hyn, dylai CNC ddarparu rhagolwg aml-flwyddyn o daliadau parhau sy'n cyd-fynd â'i fap trywydd cyhoeddedig ar gyfer adolygiadau. Yn ogystal, dylai unrhyw gynnydd fod yn gysylltiedig â gwelliannau amlwg ym mherfformiad gwasanaethau rheoleiddio. Byddai tystiolaeth glir sy'n dangos sut mae cynnydd chwyddiannol yn cyfateb i strwythurau costau mewnol CNC hefyd yn helpu talwyr ffioedd i ddeall sail y newidiadau hyn.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i gynyddu taliadau parhau blynyddol mewn meysydd sydd mewn diffyg o fwy na chwyddiant ar gyfer 2026/27?

Os oes diffyg, hoffwn i esboniad cyhoeddus manwl gael ei ddarparu i'r sector er mwyn esbonio i weithredwyr beth mae CNC wedi'i wneud i leihau costau mewnol ac ymdrin ag aneffeithlonrwydd cyn cynyddu ffioedd eto.

Yn debyg i'm sylw blaenorol ynghylch ffioedd trwyddedau. Ymddengys fod gan CNC ffigur adennill costau mewnol sy'n fwy na'r hyn a fyddai'n arferol yn y sector preifat. Mae angen edrych ar hyn a chodi tâl am amser gweithgareddau cydymffurfio ar gyfraddau rhesymol. Rwy'n sylweddoli bod costau gorbenion, ond os yw swyddog yn ymweld â safle am oddeutu dwy awr ddwywaith y flwyddyn, mae cost gweithgareddau cydymffurfio i ddeiliad y drwydded yn ymddangos yn anesboniadwy o uchel.

Mae'r sector gwastraff yn cael ei daro o bob ochr gyda chodiadau treth, cynnydd mewn cyflogau isafswm, costau cynyddol, a diffyg allfeydd a/neu allfeydd tymhorol. Mae cwsmeriaid yn amharod i dalu mwy am waredu gwastraff gan weithredwyr trwyddedig, ac mae hyn yn hybu troseddau gwastraff. Yn enwedig yng Ngorllewin Cymru, lle mae cludo pellteroedd hir i allfeydd yn gostus, mae'r diwydiant yn dechrau dirywio. Bydd costau uwchlaw chwyddiant i weithredwyr trwyddedig, y bydd angen eu trosglwyddo i gwsmeriaid, ond yn ychwanegu at y broblem.

Er fy mod yn derbyn nad yw cefnogaeth gan y sector yn nod i CNC mewn gwirionedd, rwy'n credu y byddech chi'n gweld mwy o gefnogaeth i gynnydd mewn ffioedd pe bai'r arian yn cael ei ddefnyddio i ariannu cynnydd mewn gweithgareddau gorfodi, lle rwyf hefyd yn credu y gallai fod diffyg.

Am y rhesymau rydw i eisoes wedi'u nodi, nid oes gan CNC unrhyw gyfiawnhad dros gynyddu ffioedd.

Maen nhw'n defnyddio chwyddiant sy'n codi fel esgus i odro'r fuwch arian – dyma beth yw eu cleientiaid, er yn anfodlon.

Mae Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain yn pryderu bod cynnydd dro ar ôl tro mewn taliadau parhau blynyddol sy'n uwch na chwyddiant yn cael ei ddefnyddio fel y prif fecanwaith i fynd i'r afael â diffygion hanesyddol a pharhaus, heb ddigon o dryloywder na chynllun adennill clir ac amserol.

Yn benodol, mae'r cynnydd arfaethedig o 7% mewn taliadau uned safonol adnoddau dŵr ar gyfer 2026/27, yn dilyn cynnydd o 5% yn flaenorol, yn cynrychioli patrwm o godiadau uwchlaw chwyddiant dro ar ôl tro heb unrhyw arwydd clir o pryd y disgwylir i'r codiadau hyn ddod i ben. Mae hyn yn creu ansicrwydd i weithredwyr ynni dŵr ac yn tanseilio hyder yn sefydlogrwydd a rhagweladwyedd hirdymor y fframwaith codi tâl rheoleiddiol.

Mae CNC wedi nodi bod costau diogelwch cronfeydd dŵr cynyddol, gan gynnwys rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â chytundebau gweithredu cronfeydd dŵr o dan adran 20, yn un o brif ffactorau'r diffyg mewn adnoddau dŵr. Er bod gweithredwyr ynni dŵr yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd rheoleiddio diogelwch cronfeydd dŵr cadarn, gofynnir i dalwyr taliadau amsugno costau cynyddol heb welededd digonol o sut mae'r costau hyn wedi esblygu, pa fesurau effeithlonrwydd sy'n cael eu dilyn, neu ba opsiynau ariannu neu adennill amgen sydd wedi'u hystyried.

Mae Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain yn pryderu bod diffygion sy'n deillio o fethiant hanesyddol i adennill costau llawn yn cael eu hadennill yn ôl-weithredol i bob pwrpas gan weithredwyr heddiw trwy gynnydd uwchlaw chwyddiant dro ar ôl tro. Mae'r dull hwn yn peryglu creu cylch lle mae cynnydd pob blwyddyn yn dod yn llinell sylfaen ar gyfer y flwyddyn nesaf, yn groes i amcan datganedig CNC o osgoi amrywiadau sydyn neu ailadroddus mewn taliadau a chefnogi cynllunio hirdymor.

Lle na ellir osgoi cynnydd uwchlaw chwyddiant, mae Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain yn ystyried y dylent fod â chyfyngiad amser penodol, wedi'u cefnogi gan gynllun adennill diffygion clir a thryloyw, ac ynghyd ag ymrwymiadau i sefydlogi taliadau yn y dyfodol unwaith y bydd diffygion wedi'u datrys. Byddai archwilio dulliau adennill graddol neu wedi'u capio, gwahaniaethu mwy yn seiliedig ar risg a graddfa, a mecanweithiau ariannu amgen ar gyfer rhaglenni diogelwch a ysgogir yn genedlaethol yn cyd-fynd yn well ag egwyddorion codi tâl CNC ac yn cefnogi cydymffurfedd, buddsoddiad a gweithrediad parhaus cynlluniau ynni dŵr yng Nghymru.

Mae heriau penodol y mae gweithredwyr yn eu hwynebu yng Nghymru o ran cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau. Mae'n debygol bod rhai o'r costau uchod yn deillio o'r ymdrechion cynyddol sy'n ofynnol trwy ganiatáu i swyddogion fynd i'r afael â diffygion cydymffurfio ar draws pob un o'r sectorau hyn.

Er mwyn gwella cydymffurfedd, hoffai CIWM Cymru awgrymu gwelliannau i wefan CNC gan ei bod hi'n anodd dod o hyd i'r canllawiau cywir a'u cael ar hyn o bryd. Mae hyn wedi bod yn broblem ers i wasanaethau CNC gael eu sefydlu yn dilyn yr ymwahanu oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr.

Gyda gwelliannau i ganllawiau, a mynediad at ganllawiau, mae gan weithredwyr well siawns o gydymffurfio â gofynion rheoleiddio.

Fodd bynnag, os bydd ffioedd uwch yn arwain at gynnydd yn safon y gwasanaeth, yn gyffredinol, mae CIWM Cymru yn cefnogi'r newid arfaethedig.

Nodwn y codiadau arfaethedig mewn meysydd a nodwyd fel rhai sydd mewn diffyg, yn benodol 7% ar gyfer y tâl uned safonol adnoddau dŵr ac 8.5% ar gyfer sawl maes o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Mae'r rhain yn gynnydd sylweddol sy'n rhoi pwysau sylweddol ar ein cynllunio a'n gallu i gyflawni gwelliannau amgylcheddol heb beryglu fforddiadwyedd cwsmeriaid.

Rydym yn cydnabod cadarnhad CNC fod y diffyg ym maes adnoddau dŵr yn gysylltiedig â chostau cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr adran 20 sy'n gysylltiedig â'n Rhaglen Diogelwch Argaeau, a bod diffygion yn debygol o barhau nes bod adolygiadau manwl o gostau parhau wedi'u cwblhau. Mae hyn yn

atgyfnerthu'r angen am gynllun rheoli diffygion aml-flwyddyn tryloyw i ddarparu sefydlogrwydd ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Yn yr un modd, mae cadarnhad CNC bod diffygion yn y gyfundrefn gwastraff a chyfundrefnau cysylltiedig yn adlewyrchu strwythurau codi tâl etifeddol, gyda manylion cyfyngedig wedi'u darparu yn yr ymgynghoriad, yn tanlinellu'r angen am adolygiad cynhwysfawr o daliadau parhau wedi'i gefnogi gan dryloywder cost cliriach.

Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, dylai CNC gyhoeddi cynllun adennill diffygion manwl ar gyfer pob cyfundrefn yr effeithir arni, gan gynnwys cerrig milltir blynyddol a chodiadau disgwylidig yn y dyfodol, fel y gall talwyr taliadau gynllunio'n effeithiol. Dylai fabwysiadu dull llyfnhau aml-flwyddyn er mwyn osgoi cynnydd dro ar ôl tro o'r raddfa hon dros un flwyddyn, a darparu dadansoddiad tryloyw o ysgogwyr costau, gan gynnwys y rhai a etifeddwyd gan gyrff rhagflaenol. Dylai CNC hefyd nodi'r gwelliannau effeithlonrwydd y bydd yn eu cyflawni, megis digideiddio, prosesau awtomataidd a systemau talu ar-lein, ac egluro sut y bydd y mesurau hyn yn helpu i gymedroli cynnydd mewn taliadau yn y dyfodol. Yn olaf, credwn fod ymgysylltu cynnar a rheolaidd â ni ein hunain a sectorau eraill yr effeithir arnynt fel rhan o'r adolygiad ehangach o daliadau parhau yn hanfodol er mwyn sicrhau bod newidiadau'n ymarferol ac yn gymesur.

Mae'r cynnydd arfaethedig o 7% i'r tâl uned safonol adnoddau dŵr yn destun pryder i'n haelodau. Er mwyn hwyluso dealltwriaeth ac ystyriaeth drylwyr mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol, rydym yn ceisio gwybodaeth ac eglurhad ychwanegol ynghylch y diffyg a nodwyd. Mae maint y cynnydd hwn yn awgrymu bod cynllunio ariannol yn y gorffennol wedi bod yn annigonol, gan danseilio hyder. Rydym yn argymhell yn gryf bod cynllunio ariannol hirdymor gwell yn cael ei flaenoriaethu er mwyn lliniaru'r angen am gynnydd mor sylweddol yn y dyfodol.

Roedd yr aelodau'n bryderus ynghylch y cynnydd mewn ffioedd ar gyfer cyfleusterau ailgylchu deunyddiau (cynnydd o 8.5%). Mae busnesau ffermio yn dibynnu ar gyfleusterau o'r fath ar gyfer gwaredu plastigion fferm a ddefnyddiwyd ac ati. Gall unrhyw gost ychwanegol a roddir ar y cyfleusterau hyn gael effaith ganlyniadol i'n haelodau wrth ailgylchu deunyddiau. Yng ngoleuni uchelgeisiau presennol Llywodraeth Cymru i weld pob busnes yng Nghymru yn ailgylchu, roedd ein haelodau o'r farn y dylid ariannu'r maes hwn drwy grantiau neu o leiaf ei gapio ar gynnydd o ddim mwy na 4% y flwyddyn.

Ymatebion ychwanegol:

Mae'r aelodau'n cytuno â'r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu' ar yr amod nad oes amheuaeth ynghylch pwy yw'r parti euog. O ran gollyngiadau carthffosiaeth, roedd aelodau'n teimlo'n rhwystredig bod canfyddiad bod diffyg gweithredu pan fo tystiolaeth ar gael sy'n dangos diffyg cydymffurfio. Er mwyn rhoi hyder, rhaid i CNC weithredu'n dryloyw ac yn deg mewn perthynas â materion fel hyn.

Ymatebion ysgrifenedig a dderbyniwyd:

Undeb Amaethwyr Cymru

Ymateb i ymgynghoriad CNC ar newidiadau arfaethedig i ffioedd a thaliadau rheoleiddio ar gyfer 2026/2027

1. A ydych yn ymateb fel unigolyn, busnes neu sefydliad?

Sefydliad – Undeb Amaethwyr Cymru.

2. Er mwyn ein helpu i ddeall eich safbwynt ac effeithiau ar y sector yn fwy llawn, nodwch pa sectorau busnes sy'n berthnasol i chi:

Amaethyddiaeth.

3. A oes gennych drwydded neu gydsyniad a roddwyd gan CNC ar hyn o bryd?

Nid fel sefydliad ond mae gan ein haelodau lawer o drwyddedau a gyhoeddwyd gan CNC.

4. Er mwyn deall eich atebion, byddai'n ddefnyddiol i ni wybod ble rydych chi'n byw neu'n gweithio. Pa ardal ddaearyddol sy'n berthnasol i chi?

Cymru.

5. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai gwasanaethau rheoleiddio CNC gael eu talu gan y rhai sy'n eu defnyddio ac nid gan y trethdalwr na thalwyr taliadau eraill?

Mynegodd ein haelodau rywfaint o anghytundeb. Gyda rheoleiddio cynyddol, mae yna ymdeimlad o rwystredigaeth y gallai'r dull hwn osod costau cynyddol ar fusnesau yn y tymor hir.

6. Ydych chi'n credu bod unrhyw ddewisiadau amgen gwell o ran sut mae CNC yn bwriadu ariannu ei weithgareddau rheoleiddio?

Rydym am bwysleisio, waeth beth fo'r dulliau codi tâl, fod gan CNC ddyletswydd i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mor gyfrifol ac effeithlon â phosibl er mwyn lleihau costau a gwasanaethau. Cododd un pwyllgor gweithredol sirol Undeb Amaethwyr Cymru enghraifft o ardal draenio mewnol yng Ngogledd Cymru lle roedd offer wedi bod yn segur am fisoedd lawer ac nid oedd hyn yn dangos defnydd effeithiol o arian nac adnoddau.

Lle na ellir osgoi cynnydd mewn costau, dylai CNC sicrhau tryloywder a chyfiawnhad llawn dros y newidiadau hyn.

Taliadau trwyddedu (ceisiadau)

Rydym yn cynnig cynnydd o +3% yn y meysydd trwyddedu canlynol yn unol â chwyddiant a phwysau cost eraill:

- Adnoddau dŵr (tynnu a chronni dŵr)
- Gosodiadau o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (gan gynnwys y Gyfarwyddeb Cyfarpar Hylosgi Canolig)
- Gwastraff o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
- Ansawdd dŵr o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (gan gynnwys taliadau Deddf y Diwydiant Dŵr hefyd)
- Deunyddiau anniwclear o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
- Trwyddedu rhywogaethau
- Diogelwch cronfeydd dŵr

8. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i gynyddu taliadau trwyddedu (ceisiadau) 3% mewn rhai meysydd, yn unol â chwyddiant a phwysau costau?

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

9. Oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu darparu mewn perthynas â'n cynigion codi tâl ar gyfer taliadau trwyddedu (ceisiadau)?

Er bod yr aelodau wedi cydnabod ac yn derbyn y cynnydd arfaethedig ar y cyfan, gan gydnabod y pwysau chwyddiant a chostau y mae CNC yn eu hwynebu, maent am bwysleisio'r straen ariannol sylweddol a chynyddol ar y sector amaethyddol, wedi'i waethygu gan bwysau gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill.

Taliadau parhau blynyddol (gweithgareddau cydymffurfio)

Rydym yn cynnig cynnydd o +3% yn y meysydd trwyddedu canlynol yn unol â chwyddiant a phwysau cost eraill:

- Gosodiadau o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (gan gynnwys y Gyfarwyddeb Cyfarpar Hylosgi Canolig)
- Ansawdd dŵr o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
- Cludo gwastraff rhyngwladol o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
- Diogelwch cronfeydd dŵr
- Trwyddedau gweithgareddau perygl llifogydd

10. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i gynyddu taliadau parhau blynyddol 3% mewn meysydd sydd heb fod mewn diffyg, yn unol â chwyddiant a phwysau costau?

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

11. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu darparu mewn perthynas â'n cynnig i gynyddu taliadau parhau blynyddol 3% yn unol â chwyddiant a phwysau costau?

Na.

Taliadau parhau blynyddol (gweithgareddau cydymffurfedd ariannu) lle mae diffyg Mae'r cynigion canlynol ar gyfer 2026/27 yn ceisio sicrhau bod lefelau gwasanaeth presennol yn cael eu cynnal:

- Taliadau uned safonol adnoddau dŵr – rydym yn cynnig cynyddu'r tâl uned safonol 7% i reoli'r diffyg yn y maes hwn.
- Gwastraff o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – rydym yn cynnig cynnydd o 8.5% ar gyfer 2026/27 i reoli'r diffyg yn y maes hwn.
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – anniwclear – rydym yn cynnig cynnydd o 8.5% i reoli'r diffyg yn y maes hwn.

- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – cyfleusterau ailgylchu deunyddiau – rydym yn cynnig cynnydd o 8.5% ar gyfer 2026/27 i reoli'r diffyg yn y maes hwn.
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – cludwyr, broceriaid a delwyr gwastraff – rydym yn cynnig cynnydd o 8.5% ar gyfer 2026/27 i reoli'r diffyg yn y maes hwn.

12. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i gynyddu taliadau parhau blynyddol mewn meysydd sydd mewn diffyg o fwy na chwyddiant ar gyfer 2026/27?

Anghytuno.

13. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu darparu mewn perthynas â'n cynnig i gynyddu taliadau parhau blynyddol ar gyfer meysydd sydd mewn diffyg ar hyn o bryd o fwy na chwyddiant?

Mae'r cynnydd arfaethedig o 7% i'r tâl uned safonol adnoddau dŵr yn destun pryder i'n haelodau. Er mwyn hwyluso dealltwriaeth ac ystyriaeth drylwyr mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol, rydym yn ceisio gwybodaeth ac eglurhad ychwanegol ynghylch y diffyg a nodwyd. Mae maint y cynnydd hwn yn awgrymu bod cynllunio ariannol yn y gorffennol wedi bod yn annigonol, gan danseilio hyder. Rydym yn argymhell yn gryf bod cynllunio ariannol hirdymor gwell yn cael ei flaenoriaethu er mwyn lliniaru'r angen am gynydd mor sylweddol yn y dyfodol.

Roedd yr aelodau'n bryderus ynghylch y cynnydd mewn ffioedd ar gyfer cyfleusterau ailgylchu deunyddiau (cynnydd o 8.5%). Mae busnesau ffermio yn dibynnu ar gyfleusterau o'r fath ar gyfer gwaredu plastigion fferm a ddefnyddiwyd ac ati. Gall unrhyw gost ychwanegol a roddir ar y cyfleusterau hyn gael effaith ganlyniadol i'n haelodau wrth ailgylchu deunyddiau. Yng ngoleuni uchelgeisiau presennol Llywodraeth Cymru i weld pob busnes yng Nghymru yn ailgylchu, roedd ein haelodau o'r farn y dylid ariannu'r maes hwn drwy grantiau neu o leiaf ei gapio ar gynydd o ddim mwy na 4% y flwyddyn.

Sylwadau ychwanegol:

Mae'r aelodau'n cytuno â'r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu' ar yr amod nad oes amheuaeth ynghylch pwy yw'r parti euog. O ran gollyngiadau carthffosiaeth, roedd aelodau'n teimlo'n rhwystredig bod canfyddiad bod diffyg gweithredu pan fo tystiolaeth ar gael sy'n dangos

diffyg cydymffurfio. Er mwyn rhoi hyder, rhaid i CNC weithredu'n dryloyw ac yn deg mewn perthynas â materion fel hyn.

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Cymdeithas Ailgylchwyr Pren

Adborth gan aelodaeth y Gymdeithas Ailgylchwyr Pren

Y Gymdeithas Ailgylchwyr Pren yw'r corff masnach ar gyfer sector gwastraff pren y DU, gan weithredu ar ran ei aelodau i roi llais i'r sector ar y lefelau uchaf, gan gydweithio'n agos â phob un o bedwar rheoleiddiwr y DU, adrannau'r llywodraeth fel DEFRA a'r Adran Diogeledd Ynni a Sero Net, a chymdeithasau masnach a chyrrff ailgylchu eraill i ddylanwadu a chynghori ar faterion sy'n effeithio ar y diwydiant.

Fe'i ffurfiwyd yn 2001 ac mae ganddi dros 125 o aelodau sy'n cynrychioli dros 90% o sector prosesu pren gwastraff y DU. Mae'r aelodau'n cynnwys ailgylchwyr ac ailbroseswyr pren, melinau bwrdd panel, rhwydwaith ailddefnyddio, gorsafoedd pŵer biomas pren gwastraff, gweithgynhyrchwyr technoleg, labordai, ac ymgynghoriaethau arbenigol. Mae gennym bedwar aelod wedi'u lleoli yng Nghymru – gweler [WRA Members – Wood Recyclers Association](#).

Bob blwyddyn, mae'r DU yn cynhyrchu ~4.5 miliwn tunnell o bren gwastraff. Gyda Llywodraeth y DU yn annog mwy o blannu coed, mwy o ddefnydd o bren cartref mewn adeiladu a symudiad tuag at economi fwy cylchol, yn anochel bydd mwy o bren gwastraff a, chyd hynny, yr angen am farchnadoedd terfynol addas. Mae ein cadwyn gyflenwi ar gyfer pren gwastraff domestig bellach mor sefydledig fel nad oes angen i'r un o'r adnoddau hyn fynd i safleoedd tirlenwi, gan atal allyriadau methan niweidiol. Mae cadwyn gyflenwi pren gwastraff y DU yn enghraifft nodedig o stori lwyddiant economi gylchol ddomestig.

Mae'r Gymdeithas Ailgylchwyr Pren a'i haelodau'n parchu'r hierarchaeth wastraff. Caiff pren gwastraff o ansawdd uwch ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu'n fwrdd panel neu'n sarn ar gyfer y diwydiannau dofednod a cheffylau. Roedd hynny'n cyfrif am ~28% o'r defnydd o ddeunyddiau yn 2024, gyda'r allfeydd ailgylchu cyfunol yn cael eu bodloni'n llawn ar gyfer y defnydd o bren gwastraff yn 2024, gan ddefnyddio 1.23 miliwn tunnell.

Yn 2024, cafodd 65% o'r holl bren gwastraff (tua 2.8 miliwn tunnell) a gynhyrchwyd yn y DU ei adfer gan y fflyd biomas pren gwastraff. Mae aelodau'r Gymdeithas Ailgylchwyr Pren yn darparu'r capasiti adfer domestig hanfodol i reoli gwastraff pren ôl-ddefnyddwyr gradd is, diwedd oes y wlad fel tanwydd carbon isel mewn cyfleusterau adfer ynni modern sy'n cydymffurfio'n llawn i gynhyrchu 666 MW o bŵer a/neu wres llwyth sylfaenol carbon isel.

Mae'n debyg bod Cymru'n cynhyrchu tua 250,000 tunnell o bren gwastraff bob blwyddyn, ond bydd angen llawer mwy ar ddefnyddwyr terfynol mawr gweithfeydd bwrdd panel, gweithredwyr biomas a gweithgynhyrchwyr sarn sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ac ar y ffiniau â Lloegr, felly daw'r cyflenwad o bren gwastraff i'r allfeydd hyn o bob cwr o'r DU.

Mae ein haelodau'n croesawu rheoleiddio cymesur sy'n seiliedig ar risg ac yn cefnogi rheoleiddwyr yn eu brwydr yn erbyn troseddau gwastraff.

Maen nhw hefyd yn gweld y cynnydd arfaethedig o 3% mewn ffioedd ceisiadau am wastraff yn rhesymol, ond yn cwestiynu pam fod cynnydd o 8.5% ar gyfer taliadau parhau ym maes gwastraff.

Eglurir y cynnydd mewn ffioedd arfaethedig eraill gan yr esboniad isod:

'Pan ffurfiwyd CNC, roedd ein taliadau ni'n adlewyrchu rhai'r cyrff rhagflaenol. Arhosodd y taliadau hyn yn sefydlog am nifer o flynyddoedd ac nid oeddent bob amser yn adlewyrchu'n llawn gost gynyddol rhedeg ein gwasanaethau.'

Mae ein haelodau'n nodi bod CNC wedi bodoli ers dros ddegawd bellach, felly er y gallai hyn fod yn wir ar y dechrau, mae'n anwybyddu'r ffaith bod CNC wedi newid yn sylfaenol y ffordd y mae'n codi ffioedd ar gyfer ceisiadau am drwyddedau gwastraff wedi hynny. Byddai'n dda gweld trosolwg o gyllid a staffio yn erbyn gwelliannau yn y ffordd a ddarperir gwasanaethau.

Mae pwynt pellach yn ymwneud â'r anghydraddoldeb yn rhai o'r costau sefydlog, lle mae CNC eisoes yn sylweddol ddrytach nag Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer yr un ddogfen. Gweler y dyfyniadau isod:

Current NRW add ons	
Additional plans to be assessed	Charge
Commercial confidentiality assessment	£739
Assessment / documentation of other protected sites	£208
Site of Special Scientific Interest (SSSI) assessment	£316
Habitats Regulations Assessment	£2,596
Noise impact assessment and noise management plan	£2,498
Waste recovery plan	£1,787
Dust and emissions management plan (DEMP)	£887
Odour management plan	£1,668
Fire prevention and mitigation plan (FPMP)	£2,414

Current EA add ons

Table 1.19 Charges for plans and assessments

Ref	Plan or assessment	Charge
1.19.1	Waste recovery plan or variation or revision of a waste recovery plan.	£1,231
1.19.2	Habitats assessment (except where the application activity is a flood risk activity, water discharge or groundwater activity).	£779
1.19.3	Fire prevention plan (except where the application activity is a farming installation).	£1,241
1.19.4	Pests management plan (except where the application activity is a farming installation).	£1,241
1.19.5	Emissions management plan (except where the application activity is a farming installation).	£1,241
1.19.6	Odour management plan (except where the application activity is a farming installation).	£1,246
1.19.7	Noise and vibration management plan (except where the application activity is a farming installation).	£1,246
1.19.8	Ammonia modelling assessment.	£620
1.19.9	Dust and bio-aerosol management plan.	£620
1.19.10	Habitats assessment for discharges to water and groundwater activities.	£2,218
1.19.11	Specific Substances Assessment for a water discharge activity to surface water.	£4,114
1.19.12	Specific Substances Assessment for a groundwater activity.	£1,685

Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain

Ymateb i gynigion taliadau rheoleiddiol CNC ar gyfer 2026/27

1. Cyflwyniad

Mae Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar ffioedd a thaliadau rheoleiddio arfaethedig ar gyfer 2026/27.

Mae'r gymdeithas yn cynrychioli gweithredwyr ynni dŵr, datblygwyr, perchnogion a sefydliadau cadwyn gyflenwi ledled y DU, gan gynnwys nifer sylweddol o gynlluniau sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae ein haelodau'n amrywio o brosiectau bach ar raddfa gymunedol ac ystadau i asedau strategol mawr, gan gynnwys ynni dŵr storfa bwmpio. Gyda'i gilydd, mae'r asedau hyn yn darparu dull hirdymor o gynhyrchu trydan carbon isel, sefydlogrwydd grid, manteision rheoli dŵr, a gwerth economaidd lleol, gan gyfrannu'n uniongyrchol at amcanion Llywodraeth Cymru o ran sero net, gwydnwch hinsawdd, a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Nodweddir cynlluniau ynni dŵr gan fuddsoddiad cyfalaf uchel ymlaen llaw, oes weithredol hir, a gallu cyfyngedig i addasu costau ar ôl iddynt ddod yn weithredol. Felly, mae sicrwydd rheoleiddiol, cymesured a thryloywder cyfundrefnau codi tâl yn hanfodol i gynnal hyfywedd cynlluniau a buddsoddiad parhaus yng Nghymru.

2. Crynodeb

Mae gan Gymdeithas Ynni Dŵr Prydain bryderon difrifol ynghylch y cynnydd arfaethedig mewn taliadau rheoleiddio ar gyfer 2026/27, yn enwedig mewn perthynas â thaliadau uned safonol adnoddau dŵr a chostau sy'n gysylltiedig â diogelwch cronfeydd dŵr.

I grynhoi, rydym yn pryderu am y canlynol:

- Mae'r cynnydd arfaethedig o saith y cant mewn taliadau uned safonol adnoddau dŵr, yn dilyn cynnydd o bump y cant yn y flwyddyn flaenorol, yn cynrychioli patrwm o godiadau uwchlaw chwyddiant dro ar ôl tro heb bwynt terfyn clir.
- Mae adennill diffygion yn cael ei wneud drwy gynnydd mewn taliadau o un flwyddyn i'r llall, yn hytrach na thrwy gynllun adennill tryloyw sydd wedi'i gyfyngu gan amser.
- Gofynnir i dalwyr taliadau amsugno costau cynyddol, yn enwedig mewn cysylltiad â rhaglenni diogelwch cronfeydd dŵr, heb ddigon o welededd o ysgogwyr costau, mesurau effeithlonrwydd, na dewisiadau eraill a ystyriwyd.
- Mae'r dull arfaethedig mewn perygl o danseilio egwyddorion codi tâl datganedig CNC, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer cynllunio tymor hir, rheolaeth ariannol gytbwys, a sefydlogrwydd taliadau.
- Mae effaith gronnu cynnydd mewn costau rheoleiddio yn arwain at risgiau uwch, gan rwystro gweithrediad parhaus, ailfuddsoddi, a datblygu ynni dŵr yn y dyfodol yng Nghymru, yn groes i amcanion polisi ehangach.

3. Cynnydd mewn taliadau uned safonol adnoddau dŵr

Mae Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain yn arbennig o bryderus ynghylch cynnig CNC i gynyddu'r tâl uned safonol ar gyfer adnoddau dŵr saith y cant yn 2026/27 i fynd i'r afael â diffyg a ragwelir.

Yn ystod cyfarfod talwyr taliadau CNC a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid, nododd swyddogion CNC mai'r prif ysgogydd dros y cynnydd hwn yw cost gynyddol rhaglen diogelwch cronfeydd dŵr, gan gynnwys rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â chytundebau gweithredu cronfeydd dŵr adran 20. Er bod Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain yn cydnabod bod diogelwch cronfeydd dŵr yn hollbwysig, mae aelodau'n cwestiynu pam mae'r costau hyn wedi cynyddu mor sylweddol dros flynyddoedd olynol a pham eu bod bellach yn arwain at gynydd uwchlaw chwyddiant dro ar ôl tro gan dalwyr taliadau.

Cododd yr aelodau bryderon hefyd ynghylch diffyg eglurder ynghylch pa mor hir y disgwylir i'r cynnydd hwn barhau. Mae'r anallu i fynegi ble mae'r trywydd codi tâl hwn yn dod i ben yn creu ansicrwydd ac yn tanseilio hyder yn sefydlogrwydd hirdymor y fframwaith rheoleiddio.

Mae'r diffyg gwelededd hwn wrth edrych i'r dyfodol yn gwneud cynllunio ariannol hirdymor yn hynod heriol i weithredwyr ynni dŵr, yn enwedig ar gyfer cynlluniau sy'n gweithredu ar sail enillion bach neu drefniadau prynu pŵer hirdymor sefydlog.

4. Rheoli diffygion a chynnydd uwchlaw chwyddiant ailadroddus

Mae CNC yn nodi ei fod yn cynllunio'n ariannol dros gyfnod o bum mlynedd ac yn anelu at gydbwysu cynlluniau tâl yn flynyddol. Fodd bynnag, o safbwynt talwr taliadau, mae'n ymddangos bod y dull presennol yn allanoli pwysau cost hanesyddol a systemig trwy gynnydd cynyddol mewn taliadau dro ar ôl tro, yn hytrach na mynd i'r afael â'r gyrrwyr sylfaenol mewn modd strwythuredig a thryloyw.

Mae Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain yn pryderu bod diffygion sy'n deillio o fethiant hanesyddol i adennill costau llawn yn cael eu hadennill yn ôl-weithredol oddi wrth weithredwyr heddiw. Cyfyngedig yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd o arfarnu'r opsiynau, megis adennill graddol, cyllid canolog rhannol ar gyfer rhaglenni diogelwch gyda mandad cenedlaethol, neu wahaniaethu mwy yn seiliedig ar risg a graddfa.

Mae'r dull hwn yn peryglu creu cylch lle mae cynnydd pob blwyddyn yn dod yn llinell sylfaen ar gyfer y flwyddyn nesaf, yn groes i amcan datganedig CNC o osgoi amrywiadau sydyn neu ailadroddus mewn taliadau.

Lle na ellir osgoi cynnydd uwchlaw chwyddiant, mae Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain yn ystyried y dylent fod â chyfyngiad amser, wedi'u hategu gan gynllun adennill clir, ac ynghyd ag ymrwymadau penodol i sefydlogi taliadau yn y dyfodol unwaith y bydd diffygion wedi'u datrys. Nid yw'r elfennau hyn yn ddigon clir yn yr ymgynghoriad presennol.

5. Costau diogelwch cronfeydd dŵr a chymesuredd

Mae gweithredwyr ynni dŵr yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd rheoleiddio diogelwch cronfeydd dŵr cadarn. Fodd bynnag, mae Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain yn cwestiynu a yw baich cost llawn rhaglenni diogelwch cronfeydd dŵr sy'n gynyddol ddrud yn cael ei ddyrannu'n dda, yn enwedig lle mae costau'n codi o benderfyniadau polisi cenedlaethol, safonau rheoleiddio sy'n esblygu, neu rwymedigaethau seilwaith trydydd partion.

Mae llawer o gronfeydd dŵr a ddefnyddir at ddibenion ynni dŵr yn peri risg gymharol isel i lawr yr afon o'u cymharu â chronfeydd dŵr amlbwrpas neu gyflenwi dŵr mwy, maent eisoes yn destun cyfundrefnau archwilio a chynnal a chadw llym, ac maent yn darparu manteision cyhoeddus ehangach, gan gynnwys lleihau llifogydd, storio dŵr, a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Mae dull codi tâl nad yw'n adlewyrchu risg, graddfa a budd cyhoeddus yn ddigonol yn peryglu cosbi cynlluniau sydd eisoes yn cael eu rheoli'n dda ac yn cydymffurfio, gan arwain at risg y bydd cynlluniau ynni dŵr da yn cael eu cosbi am gamgymeriadau gweithredwyr eraill, ac nid yw'n cyd-fynd ag egwyddor rheoleiddio wedi'i dargedu a chymesur.

6. Effaith gronnus ar y sector ynni dŵr

Er y gall cynnydd mewn taliadau rheoleiddio unigol ymddangos yn gymedrol o'u hystyried ar eu pen eu hunain, mae eu heffaith gronnus ar y sector ynni dŵr yn sylweddol ac yn tyfu.

Ar hyn o bryd, mae gweithredwyr ynni dŵr yn wynebu nifer o bwysau ariannol sy'n cydgyfeirio, gan gynnwys:

- Cynnydd dro ar ôl tro uwchlaw chwyddiant mewn ffioedd a thaliadau rheoleiddio, yn enwedig mewn adnoddau dŵr.
- Costau gweithredu a chynnal a chadw cynyddol, wedi'u gyrru gan chwyddiant mewn llafur, gwasanaethau peirianeg arbenigol, yswiriant a deunyddiau.
- Costau cynyddol sy'n gysylltiedig â chydymffurfedd statudol, arolygiadau a gofynion adrodd.
- Cynnydd mewn ardrethi busnes ac ansicrwydd ynghylch sut y bydd ardrethi annomestig yn cael eu trin yn y dyfodol ar gyfer asedau ynni adnewyddadwy.

- Costau uwch sy'n gysylltiedig â chysylltu â'r grid, defnydd parhaus o'r grid, ac atgyfnerthu'r rhwydwaith, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ucheldirol.
- Ansicrwydd yn y farchnad ac anwadalrwydd refeniw, gan gynnwys amlygiad i amrywiadau mewn prisiau cyfanwerthu a diffyg mecanweithiau cymorth prisiau hirdymor ar gyfer llawer o gynlluniau presennol.
- Diwedd graddol cymorth y Tariff Cyflenwi Trydan a'r Dystysgrif Rhwymo i Ynni Adnewyddadwy ar gyfer cynlluniau, gan leihau incwm rhagweladwy tra bod costau sefydlog yn parhau.
- Costau cyllido ac ailgyllido cynyddol o ganlyniad i gyfraddau llog uwch ac amodau benthyca mwy cyfyngedig.

Ar gyfer cynlluniau ynni dŵr llai a chymunedol yn benodol, mae taliadau rheoleiddio yn cynrychioli cyfran sylweddol a chynyddol o gostau gweithredu blynyddol. Yn wahanol i sectorau eraill, mae gan gynlluniau ynni dŵr gyfleoedd cyfyngedig i leihau gwariant gweithredu neu drosglwyddo costau i ddefnyddwyr.

Gyda'i gilydd, mae'r pwysau hyn yn golygu bod cynnydd parhaus uwchlaw chwyddiant mewn taliadau rheoleiddio yn creu perygl y bydd cynlluniau a reolir yn dda fel arall yn cael eu gwthio i gyflwr o weithrediad ymylol neu aneconomaidd. Gall hyn yn ei dro atal ailfuddsoddi mewn cynnal a chadw ac uwchraddio, cynyddu'r risg o ddirywiad asedau, ac yn y pen draw arwain at gau cynlluniau.

Mae effaith gronnu y pwysau hyn yn tanseilio hyder yng Nghymru fel amgylchedd sefydlog a rhagweladwy ar gyfer buddsoddi a gweithredu ynni dŵr, ac mae'n peryglu cyfyngu ar sector sy'n cyflawni manteision amgylcheddol, system a chymunedol hirdymor sy'n cyd-fynd ag amcanion Llywodraeth Cymru.

7. Argymhellion

Mae Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain yn annog CNC i wneud y canlynol:

1. Ailystyried graddfa'r cynnydd arfaethedig o saith y cant mewn taliadau uned safonol adnoddau dŵr ar gyfer 2026/27.
2. Cyhoeddi cynllun adennill diffygion clir sydd wedi'i gyfyngu gan amser, gan gynnwys pryd y disgwylir i gynnydd uwchlaw chwyddiant ddod i ben.
3. Darparu mwy o dryloywder ynghylch ysgogwyr cost diogelwch cronfeydd dŵr, gan gynnwys sut mae costau wedi esblygu a pha fesurau effeithlonrwydd sy'n cael eu dilyn.
4. Archwilio dulliau graddol neu wedi'u capio ar gyfer adfer diffygion er mwyn osgoi siociau dro ar ôl tro i dalwyr taliadau.
5. Sicrhau bod strwythurau codi tâl yn adlewyrchu risg, cymesuredd a budd y cyhoedd yn well, yn enwedig ar gyfer cronfeydd dŵr a ddefnyddir at ddibenion ynni dŵr lle mae risg isel.
6. Cryfhau ymrwymadau i sefydlogrwydd taliadau hirdymor yn unol ag egwyddorion codi tâl datganedig CNC.

8. Casgliad

Mae Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain yn cefnogi rheoleiddio amgylcheddol effeithiol sydd ag adnoddau da ac yn cydnabod rôl hanfodol CNC wrth ddiogelu adnoddau naturiol Cymru. Fodd bynnag, rhaid i fodolau ariannu rheoleiddiol fod yn deg, yn gymesur, yn dryloyw ac yn rhagweladwy.

Heb newidiadau i'r dull arfaethedig, mae Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain yn pryderu bod y cynigion codi tâl ar gyfer 2026/27, yn enwedig ar gyfer adnoddau dŵr, mewn perygl o danseilio hyder yn y fframwaith rheoleiddio a rhoi pwysau diangen ar sector sydd eisoes yn wynebu pwysau ariannol ac sy'n darparu manteision amgylcheddol a chymdeithasol hirdymor i Gymru.

Byddai Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain yn croesawu deialog barhaus ag CNC er mwyn datblygu dull mwy cytbwys a chynaliadwy o godi taliadau rheoleiddiol.

Dŵr Cymru

Ymgynghoriad ar ffioedd a thaliadau rheoleiddio CNC

Diolch i chi am ymgynghori ar ffioedd a thaliadau rheoleiddio arfaethedig CNC ar gyfer 2026/27.

Daw'r sylwadau hyn gan Dŵr Cymru Cyfyngedig, yr ymgymerwr dŵr a charthffosiaeth statudol sy'n cyflenwi dros dair miliwn o bobl yng Nghymru a rhai rhannau cyfagos o Loegr. Fel cwmni un pwrpas, dielw sy'n eiddo i Glas Cymru, nid oes gennym gyfranddalwyr ac rydym yn ailfuddsoddi pob ceiniog er budd ein cwsmeriaid a'r amgylchedd. Ein rôl graidd yw darparu dŵr yfed diogel a rheoli dŵr gwastraff yn gyfrifol, gan wneud cyfraniad hanfodol at iechyd y cyhoedd, diogelu'r amgylchedd, a datblygiad economaidd cynaliadwy ledled Cymru.

Gan ein bod yn gweithredu ar sail nid-er-elw, mae unrhyw gynnydd mewn taliadau rheoleiddio yn y pen draw yn cael ei ysgwyddo gan ein cwsmeriaid ac yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ein gallu i gyflawni gwelliannau amgylcheddol wrth gynnal fforddiadwyedd. Yn gyffredinol, rydym yn derbyn y cynnydd chwyddiannol arfaethedig o 3% ar gyfer taliadau trwyddedu a pharhau blynyddol mewn cyfundrefnau heb fod mewn diffyg, ar yr amod bod yr addasiadau hyn yn adlewyrchu pwysau costau gwirioneddol ac yn cyd-fynd â gwelliannau ym mherfformiad gwasanaethau rheoleiddio. Fodd bynnag, mae gennym bryderon sylweddol ynghylch y codiadau uwchlaw chwyddiant a gynigir ar gyfer cyfundrefnau mewn diffyg, yn benodol y cynnydd o 7% ar gyfer y tâl uned safonol adnoddau dŵr a'r cynnydd o 8.5% ar gyfer sawl maes o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, gan gynnwys gwastraff. Mae'r cynnydd hwn yn sylweddol a bydd yn rhoi pwysau sylweddol ar ein rhaglenni cynllunio a buddsoddi, gan effeithio'n uniongyrchol ar yr hyn y gallwn ei gyflawni fel endid nid-er-elw ar ran ein cwsmeriaid.

Rydym yn cydnabod esboniad CNC fod y diffyg adnoddau dŵr yn gysylltiedig â chostau cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr adran 20 sy'n gysylltiedig â'n Rhaglen Diogelwch Argaeau, a bod diffygion yn debygol o barhau nes bod adolygiadau manwl o daliadau parhau wedi'u cwblhau. Yn yr un modd, nodwn fod diffygion mewn gwastraff a chyfundrefnau cysylltiedig yn adlewyrchu strwythurau codi tâl etifeddol, ond mae'r ymgynghoriad yn darparu manylion cyfyngedig ynghylch sut y mae'r costau hyn wedi'u hasesu neu sut y byddant yn cael eu rheoli yn y dyfodol. Mae hyn yn tanlinellu'r angen am gynllun lleihau diffyg aml-flwyddyn, tryloyw, wedi'i ategu gan ddadansoddiadau costau clir ac ymrwymadau effeithlonrwydd.

Mae amserlen gyhoeddedig CNC ar gyfer adolygiadau taliadau yn y dyfodol, sy'n ymestyn hyd at 2031, yn dangos bod disgwyl newidiadau strwythurol pellach ar draws sawl cyfundrefn. O ystyried hyn, rydym yn annog CNC yn gryf i ddarparu golwg aml-flwyddyn o'r trywyddau codi tâl disgwylidig er mwyn galluogi cynllunio hirdymor effeithiol. Rydym hefyd yn credu y dylid llyfnhau unrhyw gynnydd uwchlaw chwyddiant dros sawl blwyddyn lle bynnag y bo modd er mwyn lleihau ansicrwydd a chefnogi fforddiadwyedd.

Byddem yn hapus i gefnogi unrhyw dystiolaeth yn y meysydd yr ydych yn canolbwyntio arnynt sy'n ymwneud â'n gweithgareddau er mwyn helpu i sicrhau bod eich adolygiad yn drylwyr ac yn gadarn.

Mae ein hymatebion i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr ymgynghoriad wedi'u cyflwyno drwy'r wefan arolwg ar-lein. Diolch yn fawr am eich amser ac mae croeso i chi gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Yn gywir,

Ymateb NFU Cymru:

Ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar ei ffioedd a'i daliadau rheoleiddio ar gyfer 2026/27

Mae NFU Cymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad CNC ar ffioedd a thaliadau rheoleiddio ar gyfer 2026/27.

Mae NFU Cymru yn hyrwyddo ffermio yng Nghymru ac yn cynrychioli ffermwyr ledled Cymru ac ar draws pob sector. Gweledigaeth NFU Cymru yw sector ffermio cynhyrchiol, proffidiol a blaengar sy'n cynhyrchu bwyd byd-enwog sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd mewn amgylchedd a thirwedd sy'n darparu cynefinoedd i'n natur ffynnu, a bod bwyd a ffermio Cymru yn darparu manteision economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol i holl bobl Cymru.

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y diwydiant ffermio yng Nghymru. Busnesau ffermio Cymru yw asgwrn cefn economi wledig Cymru, yr echel y mae cymunedau gwledig yn troi o'i chwmpas. Y cynhwysion crai rydyn ni'n eu cynhyrchu yw conglfaen sector sylfaen bwyd Cymru, sector sydd bellach wedi tyfu i gyrraedd trosiant o £10.2 biliwn wrth gyflogi 223,500 o bobl, sy'n cyfateb i 17% o gyfanswm gweithlu Cymru.

Rydym yn falch bod y cyhoedd yng Nghymru yn cysylltu ffermwyr Cymru, yn gyntaf oll, â darparu bwyd diogel ac olrhiniadwy o ansawdd uchel, ac, yn NFU Cymru, rydym am sicrhau y gall defnyddwyr yng Nghymru, y DU a thu hwnt barhau i fwynhau a dewis y bwyd o'r ansawdd uchaf a gynhyrchwn yma yng Nghymru – nawr ac yn y dyfodol.

Mae ffermwyr Cymru yn gofalu am dros 80% o arwynebedd tir Cymru, gan gynnal a gwella ein hamgylchedd naturiol – ased allweddol Cymru. Mae gweithgarwch ffermio yn cynnal ystod amrywiol o rywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau, yn darparu ystod o wasanaethau ecosystemau, gan gynnwys lliniaru llifogydd, atafaelu carbon a lliniaru newid hinsawdd, ac yn darparu'r cefndir arwyddocaol ar gyfer sector twristiaeth a hamdden Cymru.

Mae ffermwyr Cymru yn hyrwyddwyr a gwarchodwyr allweddol ein diwylliant, ein treftadaeth a'r Gymraeg. Mae gan y diwydiant amaethyddol yng Nghymru y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg, mwy nag unrhyw sector arall, sef 43%, mwy na dwbl y boblogaeth gyfan, a daeth 'laith y Pridd' Cyswllt Ffermio i'r casgliad bod y berthynas rhwng y gwahanol ffactorau – cadarnhaol a bygythiol – sy'n wynebu'r diwydiant amaethyddol, cefn gwlad Cymru a'r Gymraeg yn gorgyffwrdd i'r fath raddau fel nad oes pwynt, nac yn bosibl, gwahanu un oddi wrth y llall.

Yn gyffredinol, mae ffermio Cymru yn gwneud cyfraniad heb ei ail at lesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol Cymru yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a grynhoir yn Atodiad 1. Ymateb NFU Cymru i'r ymgynghoriad

Nodwn fod CNC yn ymgynghori ar ei ffioedd a'i daliadau rheoleiddio ar gyfer 2026/27 ac yn cynnig cynnal ei daliadau rheoleiddio presennol cyn belled ag y bo modd gyda rhai addasiadau ar gyfer taliadau trwyddedau (ceisiadau) a thaliadau parhau blynyddol o +3% sy'n adlewyrchu chwyddiant a phwysau costau.

Cynigir cynnydd uwchlaw chwyddiant yn amrywio o +7% i +8.5% ar gyfer nifer o daliadau parhau blynyddol lle mae diffyg wedi'i nodi, gan gynnwys y taliadau uned safonol adnoddau dŵr, ac ym meysydd gwastraff, anniwclear, cyfleusterau ailgylchu deunyddiau a chlodwyr gwastraff, sydd i gyd yn dod o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

Nodwn ymhellach fod CNC yn bwriadu cynnal adolygiad manwl o'i daliadau parhau (cydymffurfedd) blynyddol er mwyn adennill costau llawn dros y pum mlynedd nesaf.

Diddordeb NFU Cymru, a ffocws yr ymateb hwn, yw mewn perthynas â newidiadau arfaethedig CNC i'r cyfundrefnau codi tâl sy'n berthnasol i amaethyddiaeth.

Y dirwedd ffermio

Mae hwn yn gyfnod o her a newid digynsail i'r diwydiant ffermio yng Nghymru. Mae'r newid o gynlluniau etifeddol o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd yn 2026 yn cynrychioli'r newid mwyaf arwyddocaol i bolisi amaethyddol ers cenhedlaeth. Mae pryderon parhaus ynghylch y baich rheoleiddiol sy'n wynebu ffermwyr, bygythiadau o glefydau anifeiliaid, cytundebau masnach sy'n dod i'r amlwg sy'n niweidiol i amaethyddiaeth Cymru, ansefydlogrwydd y farchnad, a chostau mewnbwn sy'n cynyddu.

Mae'r sefyllfa bresennol yn llethol i rai ffermwyr, ac mae iechyd a lles ffermwyr yn destun pryder sylweddol i ni yn ystod y cyfnod anodd ac ansefydlog hwn. Mae NFU Cymru yn glir bod y baich presennol y mae ffermwyr Cymru yn ei wynebu yn anghynaliadwy ac yn rhwystr allweddol i gyflawni'r manteision lluosog a ddarperir gan ffermio, gan gynnwys bwyd o ansawdd uchel a chanlyniadau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ehangach i gymdeithas.

Yn y cyd-destun hwn, mae NFU Cymru yn galw am adolygiad annibynnol o faich cronus rheoliadau a pholisïau ar fusnesau ffermio Cymru, gan ystyried hefyd y cyd-destun economaidd a gwleidyddol ehangach. Fel y rheoleiddiwr amgylcheddol yng Nghymru, mae'n amlwg bod angen i'r adolygiad hwn gwmpasu cylch gwaith eang CNC ac ystyried sut y gellir trawsnewid y system reoleiddio i alluogi, yn hytrach na rhwystro, datblygiad busnesau fferm cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Er ein bod yn cydnabod bod pob maes o wariant Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cymorth grant i CNC, o dan lefelau digynsail o straen, mae NFU Cymru yn glir bod angen ystyried cynigion CNC ar gyfer ei ffioedd a'i daliadau yn y dirwedd economaidd ehangach.

Mae ffermwyr Cymru yn wynebu ystod eang o heriau ac yn delio â chythrwfl economaidd sylweddol o ganlyniad i ffactorau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth yn llwyr. Rydym yn credu'n gryf y dylai Llywodraeth Cymru a'i hasiantaethau roi ystyriaeth ddyledus i fforddiadwyedd cynigion a'u heffaith ar hyfywedd busnesau fferm yn ogystal â'r canlyniadau a'r effeithiau anfwriadol ar agenda bolisi ehangach Llywodraeth Cymru – er enghraifft, mewn perthynas â datgarboneiddio, lles anifeiliaid, ac adeiladu gwydnwch economaidd ac amgylcheddol ar gyfer y dyfodol.

Egwyddorion cyffredinol

Mae ffermwyr yn rheoli dros 80% o arwynebedd tir Cymru ac, felly, mae ganddyn nhw rôl ganolog i'w chwarae wrth gyflawni amcanion hinsawdd a natur Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â'u rôl graidd o gynhyrchu bwyd. Mae ffermwyr hefyd yn hanfodol i gyflawni pwrpas craidd CNC o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Ymateb NFU Cymru i'r ymgynghoriad

Mae NFU Cymru yn glir na ellir cyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru ac CNC drwy reoleiddio yn unig a bydd dull partneriaeth â ffermio yn hanfodol. Mae hefyd yn bwysig cydnabod mai dim ond o sefyllfa o hyfywedd economaidd a sefydlogrwydd y gall ffermwyr gyflawni'r manteision lluosog y mae'r gymdeithas yn eu ceisio a chwrdd â'r heriau sydd o'u blaenau. At ei gilydd, mae'n hanfodol bod y llywodraeth a'i rheoleiddwyr yn cydnabod pwysigrwydd y diwydiant amaethyddol a'i gyfraniad unigryw drwy'r fframwaith polisi a rheoleiddio.

Rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod rheoleiddio, sef 'gweithgarwch rheoleiddio' sy'n cyfeirio at yr ystod gyfan o opsiynau ac ymyriadau rheoleiddio sydd ar gael i reoleiddwyr, yn fater sy'n bwysig iawn i'n haelodau; mae'n ychwanegu cost a chymhlethdod ac yn cymryd amser i gyflawni a dangos cydymffurfedd. Gall effaith gronnu rheoleiddio danseilio hyder a llesteirio datblygiad busnesau fferm. Mae hefyd yn hanfodol bwysig nad yw ffermwyr yng Nghymru, drwy'r fframwaith rheoleiddio a'r drefn codi tâl gysylltiedig, yn cael eu rhoi dan anfantais gystadleuol.

Byddai NFU Cymru yn atgoffa CNC o'r prif egwyddorion ar gyfer ffioedd, ardollau a thaliadau a nodir gan Lywodraeth Cymru yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'. Mae'r canllawiau'n glir, sef dylai sefydliadau sy'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus geisio rheoli eu costau bob amser fel bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol. Fel arfer, dylid trosglwyddo effaith costau is i ddefnyddwyr ar ffurf taliadau is. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi na ddisgwylir i sefydliadau cyhoeddus wneud elw ar draul defnyddwyr na gwneud colled i drethdalwyr ei chymhorthdalu ac mae hyn yn gofyn am onestrwydd ynghylch amcanion y polisi a thryloywder trylwyr er budd y cyhoedd. Mae'r canllawiau hefyd yn pwysleisio monitro perfformiad gwasanaeth y codir tâl amdano.

Rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod egwyddorion tryloywder ac effeithlonrwydd yn cael eu hatgyfnerthu o fewn y Cod Rheoleiddwyr, sy'n nodi'n glir y dylai rheoleiddwyr osgoi gosod beichiau rheoleiddio diangen drwy eu gweithgareddau rheoleiddio (yr ystod gyfan o opsiynau ac ymyriadau rheoleiddio) a dylent asesu a ellid cyflawni canlyniadau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd tebyg drwy ddulliau llai beichus. Mae'r cod hefyd yn nodi, o ran ffioedd a thaliadau, y dylai rheoleiddwyr sicrhau bod eu dull o ymdrin â'u gweithgareddau rheoleiddio **yn dryloyw ac yn egluro'n glir** ar ba sail y cânt eu cyfrifo.

Yng nghyd-destun Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a'r Cod Rheoleiddwyr, mae gan NFU Cymru bryderon sylweddol o hyd ynghylch dull CNC o ymdrin â'i ffioedd a'i daliadau. Mewn ymatebion ymgynghori blaenorol ar y mater hwn (gweler, er enghraifft, 2023/24, 2024/25 a 2025/26), mae NFU Cymru wedi bod yn glir mai CNC sy'n gyfrifol am ddangos mwy o dryloywder a dangos bod cynnydd mewn costau yn deg, yn gymesur ac yn gystadleuol. Fe wnaethon ni hefyd alw ar CNC i ddangos ei fod yn effeithlon yn ei brosesau ac yn gwneud popeth o fewn ei allu i gadw costau'r gwasanaethau hyn i'r lleiafswm wrth roi pwyslais cryf ar ansawdd y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu i'w gwsmeriaid.

Mae'n parhau i fod yn destun pryder a siom i NFU Cymru fod CNC wedi bwrw ymlaen â'r codiadau sylweddol i'w ffioedd a'i daliadau ar gyfer trwyddedau newydd a diwygiedig yn 2023 heb fynd i'r afael â'r pryderon sylfaenol hyn.

Mae'n destun pryder mawr i ni, o ganlyniad i'r Adolygiad Strategol o Daliadau, fod ein haelodau wedi wynebu cynnydd sawl gwaith mewn ffioedd ymgeisio, amrywio ac ildio, sy'n anghymesur ac yn afresymol o uchel. Yn ogystal, mae gan NFU Cymru bryderon sylweddol o hyd ynghylch lefel y tryloywder ac atebolrwydd yn y ffordd y cyfrifodd CNC y cynnydd mewn taliadau a'r diffyg ffocws llwyr ar wella effeithlonrwydd ac ansawdd y gwasanaeth y mae CNC yn ei ddarparu trwy fonitro perfformiad yn effeithiol.

Yn y cyfamser, rydym wedi dod yn ymwybodol o nifer o achosion lle mae ein haelodau wedi derbyn lefel gwasanaeth sy'n is na'r safonau disgwylidig a thaliadau CNC sydd yn hollol heb hygredd. Rydym yn parhau i godi'r anghysondebau hyn gydag CNC. Ymateb NFU Cymru i'r ymgynghoriad

Yn y cyd-destun hwn, mae NFU Cymru yn parhau i alw am **adolygiad annibynnol llawn** o ffioedd a thaliadau CNC er mwyn rhoi hyder i'r rhai y mae'n eu rheoleiddio bod y taliadau'n dryloyw, yn deg ac yn gymesur ac i gefnogi CNC i ddarparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol sy'n cynrychioli gwerth am arian i gwsmeriaid. Rydym yn parhau i gredu y dylid **atal yr adolygiad strategol o daliadau parhau blynyddol** nes bod yr adolygiad annibynnol llawn wedi'i gwblhau. Dylai CNC hefyd ddatblygu **system o fonitro perfformiad** ar gyfer y drefn codi tâl, gan gynnwys nodi dangosyddion perfformiad allweddol ac adolygiad allanol yn flynyddol.

O ran cyllido gwasanaethau rheoleiddio CNC, mae NFU Cymru wedi tynnu sylw ers tro byd, lle gellir sicrhau, drwy'r gyfundrefn drwyddedu, ddarpariaeth nwyddau cyhoeddus ehangach, gan gynnwys diogelwch bwyd, bywiogrwydd gwledig a budd economaidd-gymdeithasol, ein bod yn credu y gellir gwneud achos cryf i gefnogi cyflawni'r gyfundrefn codi tâl drwy gymorth grant. Mae angen hefyd i CNC gydnabod y bydd ffermwyr yn ganolog i'r gwaith o gyflawni ei amcanion amgylcheddol wrth symud ymlaen a bod angen hyfywedd economaidd i fusnesau fferm sicrhau manteision ehangach i gymdeithas. Mae trefn reoleiddio sy'n galluogi eraill, gan gynnwys trwyddedu, yn hanfodol i ffermwyr ddatblygu ac adeiladu gwytnwch economaidd, ac felly gwytnwch amgylcheddol, ar gyfer y dyfodol.

Byddai NFU Cymru yn ailadrodd ei barodrwydd i weithio gydag CNC i nodi a datblygu atebion sy'n darparu budd i'r ddwy ochr i CNC a'r diwydiant i helpu i gadw costau i lawr. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu templedi ymgeisio 'enghreifftiol' ar gyfer y diwydiant dofednod, cyfuno ymweliadau ar ffermydd lle mae ffermydd yn cynnal gweithgareddau lluosog o dan wahanol drwyddedau, neu gydnabod pwysigrwydd dull sy'n seiliedig ar risg drwy'r broses drwyddedu. Mae'n siomedig nad oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud yn y

maes hwn, ac rydym yn awgrymu nad oes llawer o gymhelliant o fewn CNC i fynd ar drywydd arbedion effeithlonrwydd pan fydd egwyddorion adennill costau'n caniatáu i arferion gwaith aneffeithlon ymwreiddio yn y sefydliad.

Taliadau parhau blynyddol

Mae NFU Cymru yn croesawu ymrwymiad CNC i gynnal cymaint â phosibl y taliadau parhau blynyddol presennol. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod CNC yn cynnig cynnydd ar draws nifer o gyfundrefnau ar gyfer ffermydd sydd â thrwyddedau presennol. Gofynnwn i CNC ystyried y cynigion hyn yng nghyd-destun y pwysau chwyddiant sylweddol sy'n effeithio ar gynhyrchu bwyd a amlinellwyd yn gynharach yn yr ymateb hwn. Nid ydym yn credu ei bod yn sefyllfa gynaliadwy i CNC barhau i godi ei ffioedd a'i daliadau flwyddyn ar ôl blwyddyn heb archwilio'n gyntaf lle y gellir gweithredu arbedion cost.

Adolygiadau o daliadau parhau

Mae NFU Cymru yn nodi bod CNC yn bwriadu adolygu taliadau parhau (taliadau cydymffurfio blynyddol), gan ganolbwyntio i ddechrau ar nifer o gyfundrefnau sy'n effeithio ar ffermwyr. Mae angen llawer mwy o ymgysylltiad ag NFU Cymru, a chyfranogiad uniongyrchol gennym, yn y gwaith hwn.

Byddai NFU Cymru unwaith eto yn ailadrodd ein galwadau am adolygiad annibynnol llawn o ffioedd a thaliadau CNC i nodi lle y gellir cyflawni arbedion effeithlonrwydd ac arbedion cost gyda'r bwriad o gadw costau'n hylaw. Am y rheswm hwn, mae NFU Cymru yn galw am atal yr adolygiad strategol o daliadau parhau blynyddol hyd nes y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau.

Cyfundrefn drwyddedu

Hoffai NFU Cymru ailadrodd ein siom ddofn ynghylch cyhoeddiad CNC ym mis Ionawr 2025 i beidio â derbyn ceisiadau am drwyddedau amgylcheddol i waredu dip defaid gwastraff mwyach. Mae'r penderfyniad polisi hwn yn groes i weddill y DU, gan roi ffermwyr newydd / ffermwyr ifanc sy'n dod i mewn i'r sector dan anfantais o'u cymharu â'u cymheiriaid, gydag effeithiau ar hyfywedd busnesau fferm a lles anifeiliaid lle na ellir rheoli'r claf yn effeithiol. Mae NFU Cymru yn parhau i fod yn glir bod angen ateb cynaliadwy hirdymor ac rydym yn siomedig gan anhyblygrwydd CNC ar y mater hwn. Ymateb NFU Cymru i'r ymgynghoriad

Gorfodi

Mae NFU Cymru yn poeni fwyfwy am ddull CNC o adennill costau mewn perthynas â gwaith cydymffurfio heb ei gynllunio. Rydym yn poeni bod CNC yn codi taliadau o ganlyniad i ymgyrchoedd blinderus a chyfundrefnol, sy'n ymddangos fel pe baent ar gynnydd, ac sy'n effeithio'n anghymesur ar rai sectorau ffermio. Mae'n bwysig i CNC werthfawrogi nad yw adroddiadau o'r fath yn dod i law oherwydd bod mater i fynd i'r afael ag ef, ond oherwydd y gallai fod gwrthwynebiad lleol i fath o system ffermio. Byddai'n annheg iawn i weithredwyr orfod ysgwyddo costau ychwanegol i ddelio â chwynion di-sail.

Y Gymraeg

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg' – dogfen strategaeth ar gyfer hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg – yn nodi'r Gymraeg fel 'un o drysorau Cymru' ac yn sefydlu gweledigaeth ar gyfer 2050 o iaith sy'n ffynnu, lle mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi cyrraedd miliwn a lle mae cydnabyddiaeth o'i holl gyfraniad at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru. Yn y cyd-destun hwn, byddai NFU

Cymru yn cyfeirio CNC at dystiolaeth sy'n cydnabod rôl ffermwyr Cymru fel hyrwyddwyr a gwarchodwyr allweddol ein diwylliant, ein treftadaeth a'r Gymraeg.

Mae dogfen 'Amaethyddiaeth yng Nghymru' Llywodraeth Cymru (2019) yn rhoi crynodeb o nifer y siaradwyr Cymraeg yn seiliedig ar ganlyniadau cyfrifiad 2011. At ei gilydd, mae 43% o weithwyr mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgodfeydd yn siarad Cymraeg, o'i gymharu â chyfartaledd o 17% ar draws yr holl weithwyr yng Nghymru. Y ffigur hwn yw'r ganran uchaf o unrhyw sector. Mae pedair o'r chwe sir uchaf o ran cyfran y siaradwyr Cymraeg yn adlewyrchu pedair o'r chwe sir uchaf o ran y boblogaeth a gyflogir mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgodfeydd (Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin).

Mae'r dystiolaeth yn ddefnyddiol wrth amlygu rôl ffermio yn ein cymunedau o ran cadw'r Gymraeg. Yn gyffredinol, ein barn gref yw bod ffyniant y Gymraeg mewn ardaloedd gwledig yn cael ei hategu gan ffermydd Cymreig ffyniannus; bydd unrhyw gynigion sy'n gwanhau'r sector ffermio yn y pen draw yn gwanhau'r Gymraeg a'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl a chenedl.

Felly, mae ffermio yn ganolog i ddyfodol y Gymraeg ac rydym yn parhau i fod yn bryderus bod CNC, trwy ei gyfundrefn codi tâl, wedi methu â chydabod yr effeithiau negyddol ar ffermydd teuluol Cymru a phwysigrwydd sylfaenol diwydiant ffermio Cymreig bywiog ac economaidd hyfyw wrth ategu'r Gymraeg. Ymateb NFU Cymru i'r ymgynghoriad

Atodiad 1 – Cyfraniad amaethyddiaeth at lesiant Cymru

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan Lywodraeth Cymru wedi'i chynllunio i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod y mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, weithio i'w cyflawni. Mae cyfraniad ffermio at gyflawni'r saith nod yn ddigymar i unrhyw ddiwydiant arall, fel y nodir isod:
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Nodau llesiant

Cymru lewyrchus

NFU Cymru: Amaethyddiaeth yw'r Ateb

- 60,000 wedi'u cyflogi'n llawn amser neu'n rhan amser mewn ffermio yng Nghymru
- Allbwn gros o £1.5bn
- Mae ffermio yn sail i gadwyn cyflenwi bwyd gwerth dros £10bn
- Mae dros 223,500 o bobl yng Nghymru yn cael eu cyflogi yn y sectorau bwyd-amaeth – dyna

17% o'r gweithlu a chyflogwr mwyaf Cymru

- Mae cefn gwlad Cymru sy'n cael ei reoli gan ffermwyr yn darparu'r cefndir i'r diwydiant twristiaeth, gwerth dros £2.5bn
- **Mae diwydiant amaethyddol Cymru yn gynhyrchydd allweddol o gyfoeth a chyflogaeth i bobl Cymru**

Cymru gydnerth

- Mae ffermwyr yn gofalu am 81% o gyfanswm arwynebedd tir Cymru – mae hynny dros 1.84m hecтар
- 600,000 ha o ardaloedd dynodedig amgylcheddol
- Bron i 560,000 hecтар wedi'u rheoli o dan gynllun Glastir Sylfaenol ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy a gynlluniwyd i frwydro yn erbyn newid hinsawdd, gwella rheoli dŵr, a chynnal a gwella bioamrywiaeth
- Mae ffermio yn cefnogi ystod amrywiol o rywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau
- Mae ffermwyr yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ecosystemau, gan gynnwys atafaelu a rheoli carbon, a rheoli ansawdd a maint dŵr ar gyfer lliniaru llifogydd
- Mae gan osodiadau ynni lleol, carbon isel y potensial i ddiwallu 57% o ddefnydd trydan Cymru ac mae'r dystiolaeth yn dangos bod cyfran fawr o brosiectau wedi'u lleoli o fewn awdurdodau lleol gwledig Cymru
- Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr o amaethyddiaeth wedi gostwng 20% ers 1990 ac mae gostyngiadau pellach yn cael eu cyflawni trwy fesurau effeithlonrwydd cynhyrchu
- **Mae ffermwyr Cymru yn chwarae rhan allweddol wrth gynnal a gwella ein hamgylchedd naturiol a**

chefnogi darpariaeth ystod lawn o wasanaethau ecosystemau

Cymru iachach

- Mae amaethyddiaeth Cymru yn ddarparwr allweddol o fwyd Cymreig diogel a maethlon o ansawdd uchel sy'n gwneud cyfraniad sylfaenol at gefnogi lles corfforol a meddyliol pobl Cymru
- Mae ffermwyr Cymru yn adnabyddus am weithredu i rai o'r safonau lles a chynhyrchu uchaf yn y byd i gyd
- Mae ffermio Cymru hefyd yn darparu cyfran sylweddol o ddarpariaeth mynediad Cymru, sy'n cynnwys 16,000 milltir o lwybrau troed, 3,000 milltir o lwybrau ceffylau, 1,200 milltir o'r rhwydwaith beicio, a 460,000 hectar o dir mynediad agored
- **Mae ffermio Cymru yn gwneud cyfraniad allweddol at lesiant corfforol a meddyliol pobl Cymru**

Atodiad 3 – Geirfa

Acronym / term	Ystyr
AE	Allforwyr awdurdodedig
Iaith gweithgarwch	Model ariannol sy'n cysylltu incwm/alldaliadau â'n hamcanion allweddol, a ategir gan y ffrydiau ariannu
Erthygl 12A	Pwerau i CNC adennill costau am nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013
BAT	Technoleg Orau sydd ar Gael
Trwydded bwrpasol	Trwydded safle-benodol (nid set o reolau safonol)
CCG	Grŵp Ymgynghorol Talwyr Taliadau
Strwythur taliadau	Cyfrifiadau yn seiliedig ar gostau gwaith trwyddedu a chydymffurfio gweithredol i CNC
Diwrnodau/oriau y codir tâl amdanynt	Gwaith trwyddedu neu gydymffurfio gweithredol heblaw gwyliau, hyfforddiant ac ati
Diffiniadau maint cwmni:	
Micro	Llai na deg gweithiwr neu lai na £2 miliwn o drosiant
Bach	Rhwng deg a 15 o weithwyr neu rhwng £2 miliwn a £10 miliwn o drosiant
Canolig	Rhwng 50 a 250 o weithwyr neu rhwng £10 miliwn a £50 miliwn o drosiant
Mawr	Mwy na 250 o weithwyr neu dros £50 miliwn o drosiant
Cydymffurfio	Cadw at reolau trwydded
Modelu cost	Data amser ac adnoddau staff a ddefnyddir i gyfrifo costau ar gyfer gwaith trwyddedu neu gydymffurfio gweithredol
DAS	Gwasanaeth Cyngori yn ôl Disgresiwn
DC/WW	Dŵr Cymru / Welsh Water
<i>Wedi'i wneud yn briodol</i>	Cais am drwydded amgylcheddol sydd wedi'i dderbyn ac sydd â'r wybodaeth gywir, gan gynnwys yr holl ddogfennau, ffotograffau, ffioedd, a gwybodaeth atodol ofynnol y gofynnwyd amdanynt gennym ni i wneud penderfyniad
EA	Asiantaeth yr Amgylchedd
Gwasanaethau Galluogi	Timau/staff sydd eu hangen ar gyfer trwyddedu a staff cydymffurfio i weithredu o fewn y sefydliad
EPR	Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol

EPS	Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop
Cyflawni gweithredol	Staff rheoli, arwain a pholisi
Esemptiadau	Gweithgareddau a restrir o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol fel rhai nad oes angen trwydded amgylcheddol arnynt
Cymorth grant	Cyllideb gan Lywodraeth Cymru i CNC ar gyfer gweithgareddau a chostau busnes na chodir tâl amdanynt
HEP	Ynni dŵr
MWPM	Dogfen <i>Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru</i> a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru
NRW/CNC	Natural Resources Wales / Cyfoeth Naturiol Cymru
PALS	System drwyddedu (CNC)
Trwyddedu	Mae hyn yn cynnwys penderfynu ar gais am drwydded amgylcheddol, trwydded, cydsyniad ac awdurdodiadau eraill, yn ogystal ag amrywio, trosglwyddo ac ildio trwyddedau presennol
Cyngor ac arweiniad	cyn ymgeisio Cyngor ac arweiniad a roddir ar gais i gwsmer sy'n bwriadu gwneud cais am drwydded
SME	Busnesau bach a chanolig
SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
Trwyddedau rheolau	safonol Setiau safonol o reolau a ddefnyddir i gynhyrchu trwyddedau safle lle mae'r rhain yn cyd-fynd â gofynion cwsmeriaid
UK ETS	Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU

Amrywiadau i drwyddedau:

1. Gweinyddu

Newid neu gywiro:

- enw neu gyfeiriad ond lle nad yw'r endid cyfreithiol wedi newid
- Cyfeirnod Grid Cenedlaethol er mwyn gwella cywirdeb
- gwallau teipio
- dyddiad dechrau trwydded
- lleoliad allfa – lle nad oes angen asesiad technegol newydd

2. Mân newidiadau

Newidiadau sy'n gofyn am rywfaint o fewnbwn technegol gan CNC, ond llawer llai nag ar gyfer amrywiad arferol:

- lleoliad allfa
- cyfaint y gollyngiad

3. Cyffredin

Newidiadau sy'n gofyn am fewnbwn technegol gan CNC:

- lleoliad allfa sy'n gofyn am adolygiad o unrhyw asesiad o sylwedd neu gynefin presennol
- lleihau llif pasio ymlaen ar gyfer gollyngiadau carthion storm ysbeidiol
- cyfaint neu ansawdd (neu gynnwys) gollyngiad

4. Sylweddol

Lle mae angen asesiad sylweddol:

- newid cyfaint neu newid ansawdd gollyngiad ac mae angen asesiad newydd o derfynau allyriadau ar gyfer sylweddau penodol
- Sylweddau penodol yw:
- llygryddion peryglus ar gyfer gweithgareddau gollwng dŵr
- sylweddau peryglus neu lygryddion nad ydynt yn beryglus ar gyfer gweithgareddau dŵr daear
- asesiad o sylwedd neu gynefin newydd

WEEE	Cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff
WFD	Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
WIA	Deddf y Diwydiant Dŵr 1991
WIRS	System Cofnodi Digwyddiadau Cymru
WR	Adnoddau dŵr
LIC	Llywodraeth Cymru
WQ	Ansawdd dŵr